

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 03/2011



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Adolygiad o Gefnogaeth i Ddatblygu Mentrau Cymdeithasol a Ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Adolygiad o Gefnogaeth i Ddatblygu Mentrau Cymdeithasol a Ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru



Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn farn Llywodraeth Cynulliad Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Siân Jones

Yr Is-Adran Ymchwil Gymdeithasol

Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Swyddfa Merthyr Tudful

Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ

Ffôn: (01685) 729126

E-bost: <mailto:SJ&LGResearch&InformationUnit@wales.gsi.gov.uk>

<http://www.wales.gov.uk/research>

Ymchwil Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011

ISBN: 978 0 7504 6003 3

© Hawlfraint y Goron 2011

Cynnwys

Error! No table of contents entries found.

1.0 Cyflwyniad

Comisiynodd Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygiad annibynnol o'r gefnogaeth i Ddatblygu Mentrau Cymdeithasol yng Nghymru a ariennir. Dyfarnwyd y contract i Old Bell 3 Cyf. ym Medi 2010.

Ar hyn o bryd mae Uned Trydydd Sector Adran Cymunedau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu cyllid craidd i dri chorff sydd â'r nod penodol o ddatblygu a thyfu Sector Mentrau Cymdeithasol Cymru. Y tri chorff yw:

Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru;
Social Firms Wales;
Canolfan Cydweithredol Cymru.

1.1 Nodau ac Amcanion yr Adolygiad

Nod cyffredinol yr adolygiad hwn fel yr amlinellir yn y fanyleb yw ***“adolygu addasrwydd y trefniadau cyllid craidd wrth gefnogi twf a datblygiad Mentrau Cymdeithasol”***.

Mae manyleb yr arolwg yn cynnwys saith amcan penodol sef:

1. Adolygu'r rhesymeg bresennol a pharhaus dros ariannu'r cyrff a enwir;
2. Adolygu llwyddiant y cyrff a ariennir wrth gyflawni'r amcanion y cytunwyd arnynt, a dynodi a mesur y cyfraniad y mae'r rhain wedi ei ddwyn i dwf a datblygiad y sector mentrau cymdeithasol. Dylid ystyried effeithiau economaidd y gwaith a ariennir gan ystyried, er enghraifft, ychwanegolrwydd y gefnogaeth;
3. Adolygu swm a ffynonellau'r arian y mae pob un o'r tri chorff wedi eu sicrhau yn ychwanegol at y cyllid craidd gan

Lywodraeth y Cynulliad i gefnogi eu gwaith;

4. Rhoi barn ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gweithgareddau a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad yn y sefydliadau a enwir wrth gyfrannu at waith ehangach Llywodraeth y Cynulliad yn y maes polisi. Dylai hyn gynnwys meincnodi mewn cymhariaeth â chyrrff tebyg eraill pan fydd hynny'n bosibl;
5. Asesu'r gwerth am yr arian, trwy ddadansoddiad mantais oddi wrth y gost, ar gyfer pob un o'r sefydliadau sy'n cael arian craidd wrth gefnogi datblygiad mentrau cymdeithasol yng Nghymru. Dylai hyn gynnwys adolygiad o union gynnyrch y gweithgareddau o'u cymharu â'r hyn a ddisgwyliid, gan ymchwilio i'r rhesymau am y gwahaniaethau ac ystyried beth allai fod wedi digwydd;
6. Dynodi enghreifftiau o arfer da neu fel arall wrth ddarparu cefnogaeth i Fentrau Cymdeithasol;
7. Gwneud argymhellion ar drefniadau cyllido yn y dyfodol ar gyfer cefnogi datblygiad a thwf ym maes mentrau cymdeithasol.

1.2 Strwythur yr Adroddiad

Mae'r adroddiad hwn wedi ei strwythuro i ymateb yn uniongyrchol i fanyleb yr adolygiad. Yng ngweddill y ddogfen hon, rydym yn gyntaf yn amlinellu'r dull ymchwilio a ddefnyddiwyd (**Adran 2**). Yna rydym yn troi at ganfyddiadau ein hadolygiad (**Adran 3**), cyn amlinellu ein casgliadau a'n hargymhellion (**Adran 4**).

2.0 Rhaglen Waith

Roedd y rhaglen waith ar gyfer yr adolygiad hwn, a gynhaliwyd rhwng Medi a Thachwedd 2010 yn cynnwys:

Mynd i gyfarfod cychwynnol gyda swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar 2 Medi 2010 i gytuno ar raglen waith ar gyfer yr adolygiad hwn;

Adolygu dogfennau a deunyddiau polisi a strategaeth addas i asesu'r rhesymeg ar gyfer penderfyniad Llywodraeth y Cynulliad i roi arian craidd i'r tri chorff. Mae'r dogfennau/ffynonellau a adolygwyd yn cael eu rhestru yn Adran 3.2 o'r adroddiad hwn;

Adolygu'r llythyrau dyfarnu cytundeb cyllid craidd a'u hatodiadau "*Atodlen 1*" (yn amlinellu nodau, amcanion a dangosyddion perfformiad allweddol) yn ogystal â detholiad o adroddiadau cynnydd chwarterol (26 i gyd) a baratowyd gan bob un o'r tri chorff oedd yn destun i'r adolygiad;

Coladu ac adolygu gwybodaeth ariannol yn ymwneud â'r tri chorff sy'n destun yr adolygiad;

Cynnal cyfweiliadau manwl gyda Phrif Weithredwyr a Chadeiryddion pob un o'r tri chorff;

Cynnal cyfweiliadau (cymysgedd o rai wyneb yn wyneb a dros y ffôn) gyda 27 o bobl gyda diddordeb uniongyrchol neu wybodaeth am waith y tri chorff sy'n destun i'r adolygiad¹;

Cynnal arolwg dros y ffôn gyda sampl o fentrau cymdeithasol a gefnogir gan y tri chorff. Cwblhawyd cyfweiliadau ffôn gyda sampl o 47 o fentrau cymdeithasol yn ystod yr Hydref a dechrau Tachwedd 2010;

Cynnal ymweliadau dilynol i gyfweld 12 o fentrau cymdeithasol a gymerodd ran yn yr arolwg ar y ffôn².

¹ Rhoddir rhestr lawn o'r rhai a gyfwelwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

² Mae rhestr o'r mentrau cymdeithasol yr ymwelwyd â nhw yn Atodiad 2 i'r adroddiad hwn.

3.0 Canfyddiadau

3.1 Cefndir y Cyrff a Gefnogir

Yn yr adran hon rydym yn rhoi crynhoed o gefndir y tri chorff sy'n destun i'r adolygiad hwn.

3.1.1 Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru

Mae Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru³ (CYD Cymru) yn sefydliad gydag aelodaeth annibynnol i ymarferwyr yn hyrwyddo gwaith y mudiad ymddiriedolaethau datblygu yng Nghymru a'i gefnogi. Fe'i sefydlwyd yn 2003, ac mae'n rhan o Rwydwaith Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu a mentrau cymunedol er ei fod yn annibynnol yn ariannol oddi ar Gymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu'r Deyrnas Unedig⁴.

Cenhadaeth y Gymdeithas yng Nghymru yw *“dwyn ymddiriedolaeth ddatblygu lwyddiannus i fodolaeth ym mhob cymuned sy'n dymuno cael un”*.

Mae'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau cyngori a chefnogi i ymddiriedolaethau datblygu ar draws Cymru, gan gynnwys:

Cefnogi ymddiriedolaethau datblygu newydd a'r rhai sy'n ymddangos yng Nghymru;

Helpu ymddiriedolaethau datblygu sy'n bodoli a sefydliadau adfywio a menter yn y gymuned i weithredu yn dda a thyfu eu mentrau a'u gwasanaethau;

³ Sefydliadau yw Ymddiriedolaethau Datblygu sy'n seiliedig yn y gymuned, yn eiddo i'r gymuned ac yn cael eu harwain ganddi, sy'n ymwneud ag adfywio economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ar gyfer ardal benodol neu gymuned, sy'n annibynnol ond sydd am weithio mewn partneriaeth â chyrff preifat, gwirfoddol a sector cyhoeddus eraill, sy'n hunan gynhaliol neu yn anelu at fod yn hunan gynhaliol, ac nid er elw preifat. Nid oes strwythur cyfreithiol ffurfiol wedi ei osod, a gall ymddiriedolaeth ddatblygu gael ei chofrestru fel cwmni cyfyngedig trwy warant, cwmni budd cymunedol neu gymdeithas ddiwydiannol a darbodus. Mae llawer yn cofrestru fel elusennau. Ffynhonnell: Wikipedia.

⁴ Ar 11 Tachwedd 2010 cyhoeddwyd y byddai Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu y Deyrnas Unedig yn uno gyda Chymdeithas Prydain i Setliadau a Chanolfannau Gweithredu Cymdeithasol. Ffynhonnell: <http://www.dta.org.uk/whatsnew/pressreleases/DTabassacmerge>

Hyrwyddo a chefnogi rhwydwaith ddysgu weithredol i 'ymarferwyr';
Hyrwyddo arfer da a gweithio gyda rhanddeiliaid eraill gyda
gwerthoedd a gweledigaeth debyg.

Mae CYD Cymru hefyd yn bartner gweithredol yn y prosiect "*RegenSchool*" Cymru. Sefydlwyd y prosiect trwy gefnogaeth ariannol gan Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo, ac fe'i rheolir a'i gydlynu gan CYD Cymru i ddarparu rhaglen o addysg a datblygiad proffesiynol i'r rhai sy'n gweithio ym maes adfywio. Mae'r cysyniad RegenSchool Cymru yn cael ei gyflawni trwy raglen gymysg o addysg sy'n cynnwys cyrsiau ffurfiol, sesiynau briffio a chefnogaeth mentora.

Yn ei Gynllun Busnes 2008-2011, mae CYD Cymru yn nodi bod ganddi 40 o aelodau sy'n ymddiriedolaethau datblygu yng Nghymru. Mae ganddi hefyd 21 o aelodau cysylltiol ac o'r rheiny mae 4 yn ymddiriedolaethau datblygu sydd yn ymddangos. Mae CYD Cymru yn cael ei oruchwylio gan fwrdd o 14 aelod a etholwyd gan aelodau ymddiriedolaethau datblygu Cymru. Rheolir CYD Cymru o ddydd i ddydd gan Brif Weithredwr ac mae ganddi dri o staff amser llawn (gan gynnwys y Prif Weithredwr). Mae CYD Cymru yn gweithredu o swyddfa gofrestredig ym Mhenarth, ym Mro Morgannwg. Dyfarnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru arian craidd gwerth £505,371 i CYD Cymru ar gyfer tair blwyddyn ariannol ariannol o 1 Ebrill 2008 i 31 Mawrth 2011.

3.1.2 Social Firms Wales

Cwmni Cyfyngedig trwy Warrant yw Social Firms Wales ac mae'n bodoli i leihau allgauedd cymdeithasol ac anweithgaredd economaidd trwy gynnwys grwpiau sy'n cael eu hallgau yn y farchnad lafur trwy gefnogi datblygiad a thwf Cwmnïau Cymdeithasol⁵ yng Nghymru. Rheolir Social Firms Wales gan fwrdd

⁵ Menter sy'n cael ei harwain gan y farchnad yw 'Cwmni Cymdeithasol' a sefydlwyd yn benodol i greu swyddi o safon uchel i bobl sydd dan anfantais yn y farchnad lafur. Menter sy'n gweithio tuag at ddod yn Gwmni Cymdeithasol yw 'Cwmni Cymdeithasol sy'n ymdangos', sydd fel arfer yn y cyfnod cynnar o fasnachu ac nad yw eto mewn sefyllfa i gyflogi niferoedd o bobl, ond sy'n gweithio yn ôl cynllun busnes sy'n darlunio sut y maent am gyflawni eu nod. Y 'sector Cwmnïau Cymdeithasol' yw'r term a ddefnyddir ar gyfer Cwmnïau Cymdeithasol a'r rhai sy'n ymddangos. Ffynhonnell: Social Firms UK.

o gyfarwyddwyr ac aelodau gwirfoddol, y cyfan ohonynt yn ymwneud â Chwmnïau Cymdeithasol a modelau eraill o fenter gymdeithasol neu sy'n gweithio yn uniongyrchol gyda grwpiau difreintiedig o bobl. Er eu bod yn gysylltiedig â Social Firms UK, nid yw Social Firms Wales yn cael ei ariannu ganddi ac nid yw'n gorfod adrodd yn ôl iddi. Mae Social Firms UK yn rhoi cefnogaeth ymarferol i Social Firms Wales.

Yn ei Gynllun Busnes 2007-2010, nododd Social Firms Wales ei ddull o ddatblygu'r sefydliad dros gyfnod o 3 blynedd. Mae'r Cynllun Busnes yn nodi bod y sefydliad yn *"anelu at aros yn fychan, ond yn un sy'n cefnogi newid cymdeithasol sylweddol trwy weithio gydag ystod eang o sefydliadau ac asiantaethau sy'n bartneriaid"*⁶.

Nodir mai gweledigaeth Social Firms Wales yw *"lleihau allgauedd cymdeithasol ac anweithgaredd economaidd trwy gynnwys grwpiau sy'n cael eu hallgau yn y farchnad lafur trwy greu Cwmnïau Cymdeithasol yng Nghymru"*.

Ei genhadaeth yw *"tyfu'r sector Cwmnïau Cymdeithasol er mwyn cynyddu cyfleoedd gwaith i bobl ag anableddau, problemau iechyd meddwl a phobl sy'n gwella o gamddefnyddio sylweddau ac i helpu i frwydro yn erbyn digartrefedd ar draws Cymru"*.

Mae swyddfa gofrestrdedig Social Firms Wales yng Ngogledd Corneli, Pen-y-bont ar Ogwr ac ar hyn o bryd mae'n cyflogi staff sy'n cyfateb i dair swydd amser llawn, un ohonynt yn Brif Weithredwr i'r sefydliad yng Nghymru.

Dyfarnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gyllid craidd o £288,447 i Social Firms Wales ar gyfer y tair blynedd ariannol o 1 Ebrill 2008 hyd 31 Mawrth 2011⁷.

3.1.3 Canolfan Cydweithredol Cymru

⁶ Ffynhonnell: Cynllun Datblygu Busnes Social Firms Wales 2007-2010. Crynodeb Gweithredol. (Tudalen 3).

⁷ Addaswyd swm y cyllid craidd hwn ar i fyny o'r swm gwreiddiol o £207,779 ar 16 Ionawr 2009.

Mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn asiantaeth ddatblygu gydweithredol⁸ sy'n cefnogi amrywiaeth eang o fentrau cydweithredol, mentrau cymdeithasol a sefydliadau trydydd sector eraill ar draws Cymru gyfan. Fe'i sefydlwyd ym 1982 gan TUC Cymru fel Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus – corff gwirfoddol nid er elw gydag aelodaeth agored. Ers 1982 mae'r Ganolfan wedi darparu cefnogaeth i fusnesau sy'n datblygu a'r rhai sy'n bodoli trwy gefnogaeth i ddatblygu, cefnogaeth fusnes a gwasanaethau hyfforddi.

Ariennir y Ganolfan yn gyhoeddus trwy Lywodraeth Cynulliad Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Unedig, cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd, rhai Awdurdodau Lleol a chontractau sector cyhoeddus eraill, ond mae hefyd yn cynhyrchu peth incwm a enillir. Wrth gefnogi datblygiad y sector gydweithredol a mentrau cymdeithasol yng Nghymru, mae'n cyflawni elfennau allweddol o Gynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Cynllun Cynhwysiant Digidol a'r Cynllun Gweithredu Undebau Credyd. Cynrychiolir y Ganolfan ar fwrdd Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru, cyngor cyffredinol Cynghrair Mentrau Cymdeithasol y Deyrnas Unedig, Fforwm Mentrau Cydweithredol y Deyrnas Unedig a Bwrdd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Gweledigaeth y Ganolfan yw *“sector gydweithredol ffyniannus yng Nghymru, sy'n cynnig gwasanaethau cefnogi cyfiawnder cymdeithasol a chynhwysiant cymdeithasol ac yn cael ei gydnabod fel cyfrannwr gwerthfawr at lwyddiant economaidd a chymdeithasol”*.

Mae'r ystod o weithgareddau cefnogi sydd gan y Ganolfan yn canolbwyntio ar dri maes bras y rhaglen sef cynhwysiant digidol, cynhwysiant ariannol a menter. Mae'r gwasanaethau yn y meysydd eang hyn yn y rhaglen yn cynnwys:

⁸ Sefydliadau busnes sy'n eiddo i grŵp o unigolion ac yn cael eu gweithredu ganddynt er eu budd hwy i gyd yw mentrau cydweithredol. Ffynhonnell: Wikipedia.

Cefnogaeth Fusnes – cynllunio busnes, cynllunio ariannol, cyflogi pobl, prynu busnes, marchnata a chyfathrebu;
Datblygu Sefydliadol – strwythurau rheoli mewnol, strwythurau trefniadol a chymorth i sefydlu endid cyfreithiol;
Gwasanaethau Hyfforddi – gweithdai, cyrsiau wedi eu strwythuro, a mentora;
Cefnogaeth i Gymunedau – trwy annog syniadau cymunedol, prosiectau a gwasanaethau;
Cefnogaeth i annog mabwysiadu polisiâu masnach deg, amgylcheddol ac amrywiaeth.

Mae'r Ganolfan yn cyflogi ychydig dros 50 o staff mewn lleoliadau ar draws Cymru ac mae'n atebol i Fwrdd Rheoli gwirfoddol. Mae ei phrif swyddfa yn Llandaf, Caerdydd.

Dyfarnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gyllid craidd yn cyfateb i £510,000 i Ganolfan Cydweithredol Cymru ar gyfer y tair blynedd ariannol o 1 Ebrill 2008 hyd 31 Mawrth 2011.

3.2 Rhesymeg ar gyfer Ariannu

Yn yr adran hon rydym yn archwilio cyfres o ddatblygiadau polisi ac isadeiledd sy'n rhoi'r cyd-destun a'r sail resymegol ar gyfer penderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddyfarnu cytundebau cyllid craidd i'r tri chorff sy'n destun yr adolygiad hwn.

3.2.1 Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol

Yn 2005, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei Strategaeth Mentrau Cymdeithasol a Chynllun Gweithredu Cymru (SEAP). Roedd hyn mewn gwirionedd yn ymwreiddio cefnogaeth i'r economi gymdeithasol ym mholisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'n ddogfen allweddol o ran sail resymegol Llywodraeth Cynulliad Cymru dros y cytundebau ariannu gyda'r tri chorff sy'n destun i'r adolygiad hwn.

Roedd Cynllun 2005 yn cydnabod bod *“gan fentrau cymdeithasol rôl benodol a gwerthfawr i’w chwarae wrth helpu i greu economi gref, gynaliadwy a chynhwysol”*.⁹ Roedd Cynllun 2005 hefyd, am y tro cyntaf, yn cynnig diffiniad cyffredin ar gyfer y term mentrau cymdeithasol yn y cyd-destun Cymreig:

“Menter gymdeithasol yw busnes sydd ag amcanion cymdeithasol yn bennaf y mae ei wargedion yn bennaf yn cael eu hail fuddsoddi ar gyfer y diben hwnnw yn y busnes neu yn y gymuned, yn hytrach na chael ei yrru gan yr angen i greu’r elw mwyaf ar gyfer rhanddeiliaid a pherchenogion”.¹⁰

Roedd nodau Cynllun 2005 yn cynnwys:

*“creu amgylchedd sy’n annog mentrau cymdeithasol newydd ac yn gwneud y mwyaf o’r cyfleoedd ar gyfer twf;
sefydlu cefnogaeth integredig ar gyfer y sector yn cynnwys asiantaethau prif ffrwd ac arbenigol yn arwain at greu sector menter cymdeithasol ffyniannus yng Nghymru”*.

Roedd Cynllun 2005 hefyd yn amlinellu agweddau allweddol o’r gefnogaeth oedd yn angenrheidiol i ddatblygu’r economi gymdeithasol yng Nghymru, oedd yn cynnwys:

“Gwneud mentrau cymdeithasol yn well busnesau - trwy:
- sicrhau cefnogaeth ar lefel uchel ac o ansawdd ar gyfer mentrau cymdeithasol
- sicrhau cyllid ac ariannu addas i alluogi’r sector i dyfu.

Sefydlu gwerth mentrau cymdeithasol - trwy:
- bennu maint, cryfder a thaeniad y sector
- gydnabod llwyddiant a hyrwyddo’r sector
- helpu mentrau cymdeithasol i ‘brofi’ eu gwerth.

⁹ Tudalen 6.

¹⁰ Tudalen 6.

Annog datblygiad cyfleoedd newydd - trwy:

- cefnogi rhwydweithiau arbenigol*
- cefnogi datblygiad clystyrau*
- cysylltu gyda rhaglenni adfywio”.*

Yn Chwefror 2009 (ran o'r ffordd trwy'r cytundebau ariannu craidd presennol gyda'r tri chorff), cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Gynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol Cymru newydd, wedi ei ddiweddarau, a welwyd fel *“cyfle ar gyfer adolygu, adnewyddu a diweddarau strategaeth 2005 a'i gweithgareddau”*.¹¹

Mae Cynllun 2009 yn nodi bod *“cyflymu nifer, graddfa ac effaith mentrau cymdeithasol yng Nghymru yn flaenoriaeth allweddol”* a bod *“holl adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach wedi cael eu herio i ddynodi cyfleoedd ar gyfer mentrau cymdeithasol i gystadlu i gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus o safon uchel sy'n rhoi pwyslais ar y dinesydd – yn ogystal â manteision eraill fel creu cyfoeth ac adfywio cymunedol, mewn ffyrdd cynhwysol a chynaliadwy*.¹²

Er bod *“nodau ac amcanion yn parhau'r un fath â Strategaeth Mentrau Cymdeithasol Cymru, 2005”*¹³, yng Nghynllun 2009, mae cyfanswm o 20 o bwyntiau gweithredu newydd ynddo. Mae nifer o'r pwyntiau gweithredu hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun yr Adolygiad hwn, gan gynnwys:

“bydd Gweinidogion Cymru yn gweithio i sicrhau mwy o effaith ac integreiddio ar draws pob adran yn Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo mentrau cymdeithasol a dylanwadu ar asiantaethau ac awdurdodau allanol;

Bydd sefydliad newydd, Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru, yn cael ei sefydlu i hyrwyddo mentrau cymdeithasol a chyflawni elfennau allweddol o'r Cynllun Gweithredu;

¹¹ Tudalen 5.

¹² Tudalen 5.

¹³ Tudalen 24.

Bydd Grŵp Ymgynghorol Gweinidogol Mentrau Cymdeithasol newydd yn cael ei sefydlu i gynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru yn uniongyrchol mewn cyfarfodydd Gweinidogol;

Bydd Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn hyrwyddo mentrau cymdeithasol fel rhan o weithredu Y Trydydd Dimensiwn: Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Cynllun y Sector Gwirfoddol”.

Mae'n bwysig nodi yng nghyd-destun gwaith y tri chorff sy'n destun i'r adolygiad hwn, bod Cynllun 2009 yn cydnabod nad yw'r economi gymdeithasol yng Nghymru yn cynnwys grŵp unffurf o sefydliadau. Yn hytrach, mae'n ei gwneud yn glir bod y term mentrau cymdeithasol yn ymarferol yn cynnwys amrywiaeth o wahanol fathau o sefydliadau a all gael trefniadau cyfansoddiadol gwahanol ond sy'n debyg o ran bod ganddynt ochr fasnachol a'u bod hefyd yn ymroddedig iawn i nodau cymdeithasol.

“Gellir dewis amrywiaeth o wahanol strwythurau cyfreithiol er mwyn gwasanaethu diben a gwerthoedd craidd menter, fel Cwmni Budd Cymunedol¹⁴, Cwmni Cyfyngedig trwy Warant, Elusen neu Gymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus. Gall mentrau cymdeithasol hefyd fabwysiadu gwahanol fodolau trefniadol nad ydynt yn gyfreithiol fel cwmnïau cymdeithasol, ymddiriedolaethau datblygu, mentrau cydweithredol neu fentrau cymunedol”¹⁵.

O ystyried yr amrywiaeth yn yr economi gymdeithasol yng Nghymru, mae Cynllun 2009 yn cydnabod bod ar wahanol fentrau cymdeithasol angen gwahanol fathau o gefnogaeth arbenigol ar gyfnodau gwahanol yn eu datblygiad gan gynnwys:

¹⁴ Mae cwmni budd cymunedol yn fath o gwmni a gyflwynwyd gan lywodraeth y Deyrnas Unedig yn 2005 dan Ddeddf Cwmnïau (Archwilio, Ymchwiliadau a Mentrau Cymunedol) 2004, a gynlluniwyd ar gyfer mentrau cymdeithasol sydd am ddefnyddio eu helw a'u hasedau ar gyfer lles y cyhoedd. Bwriadwyd i gwmnïau budd cymunedol fod yn rhai hawdd eu sefydlu, gyda'r holl hyblygrwydd a sicrwydd ffurf cwmni, ond gyda rhai nodweddion arbennig i sicrhau eu bod yn gweithio er budd y gymuned. Ffynhonnell: Wikipedia.

¹⁵ Tudalen 8.

“Ymddangos: bydd mentrau sydd yn y cyfnod hwn yn aml angen gwybodaeth glir am eu dewisiadau a’r dulliau a ffynonellau cefnogaeth. Maent hefyd yn cael budd o gyfleoedd i rwydweithio, rhannu a dysgu oddi wrth eraill;

Datblygu: rhai sydd wedi symud i gam mwy arwyddocaol o ran eu datblygiad sydd angen cyfarwyddyd ar strwythurau cyfreithiol, cynllunio busnes, datblygu cynnyrch, marchnata a rheoli gweithredol. Bydd arnynt angen help i ymwreiddio arfer gorau o ran cydraddoldeb cyfle a rheoli amgylcheddol;

Tyfu: bydd mentrau mwy aeddfed yn aml angen cyngor ac arweiniad eithaf arbenigol o’r math y gellir ei ddarparu gan ymgynghorwyr arbenigol, gyda chefnogaeth ffynonellau cyllid buddsoddi addas¹⁶.

Mae Cynllun 2009 yn cyfeirio yn benodol at ddau o’r tri chorff sy’n destun i’r adolygiad hwn (Canolfan Cydweithredol Cymru a CYD Cymru) fel rhan o’r isadeiledd hwn o gefnogaeth. *“Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ariannu Canolfan Cydweithredol Cymru a Chymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru i gynnig cefnogaeth ddatblygu arbenigol i fentrau cymdeithasol”¹⁷.*

Mae’r strategaeth hefyd yn cydnabod y trydydd gorff a adolygir yma (Social Firms Wales) o ran *“mae darparwyr eraill sy’n cynnig gwasanaethau cefnogi mentrau cymdeithasol, fel Social Firms Wales, Busnes yn y Gymuned, Mentrau Cymunedol Cymru, ac AMCAN, sy’n helpu i ffurfio fframwaith integredig o gefnogaeth”¹⁸.*

Pwynt pwysig a wneir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yng Nghynllun 2009 yw, tra bod rhesymeg glir dros gael sefydliadau arbenigol yn eu lle i gefnogi gwahanol fathau o fentrau cymdeithasol, rhaid i asiantaethau cefnogi weithio gyda’i gilydd mewn ffyrdd strategol a chydlyn.

¹⁶ Tudalen 38.

¹⁷ Tudalen 40.

¹⁸ Tudalen 41.

“Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hyrwyddo gweithio mwy clos rhwng yr holl wahanol wasanaethau ac asiantaethau i wella cysondeb, ansawdd ac integreiddio'r gefnogaeth datblygu busnes y mae mentrau cymdeithasol yn ei derbyn”¹⁹.

Mae hyn yn amlinellu disgwyliad clir y bydd y tri chorff sy'n destun i'r adolygiad hwn yn gweithio'n fwy clos at ei gilydd wrth ddarparu gwasanaethau cefnogi, ond hefyd yn alinio eu gwasanaethau gyda rhai darparwyr cefnogaeth busnes prif ffrwd, sefydliadau sy'n cefnogi'r trydydd sector (fel Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r Cyngorau Gwirfoddol Sirol) a hefyd y Gynghrair Mentrau Cymdeithasol.

3.2.2 Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru

Roedd Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol 2009 yn amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i sefydlu *“sefydliad newydd i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru”²⁰.*

Wedi ei sefydlu fel cwmni, cyhoeddwyd bodolaeth Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar y pryd ar 1 Rhagfyr 2009.

Mae gan y Gynghrair bedwar prif amcan sef:

*“cynrychioli barn mentrau cymdeithasol trwy fod yn llais i fentrau cymdeithasol yng Nghymru;
bod yn sefydliad sy'n cael ei arwain gan ei aelodau; gan godi proffil mentrau cymdeithasol yng Nghymru fel model busnes deinamig;
gweithio gydag asiantaethau cefnogi sy'n bodoli a
hwyluso mynediad at gefnogaeth a bod yn borth at wybodaeth ar gyfer mentrau cymdeithasol”.*

¹⁹ Tudalen 41.

²⁰ Tudalen 1.

Mae'r Gynghrair yn derbyn ei chyllid craidd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a fydd yn cyfateb i ryw £700,000 dros y tair blynedd ariannol o 2009/10 hyd 2012/13.

Mae'r Gynghrair yn ei disgrifio ei hun fel "*pen busnes*" y Trydydd Sector, ac mae "*yn ceisio cynrychioli amrywiaeth eang o fentrau cymdeithasol, i gynnwys cyrff ymbarél, partneriaid a rhwydweithiau yn y sector preifat a chyhoeddus. Fel llais y mudiad bydd y Gynghrair yn cyflwyno dadl gref, bositif dros fentrau cymdeithasol Cymru i'r sectorau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector yn ogystal â darparu llwyfan rymus a llawn gwybodaeth ar gyfer arddangos mentrau cymdeithasol ar eu gorau*"²¹.

Mae'n bwysig nodi nad yw'r Gynghrair yn cynnig gwasanaethau cefnogi uniongyrchol i fentrau cymdeithasol yng Nghymru yn yr un ffordd ag y mae'r tri chorff sy'n destun yr adolygiad hwn. Yn hytrach, mae'r Gynghrair wedi cael y gwaith o "*gynrychioli a chefnogi gwaith ei haelodau amrywiol, wrth geisio dylanwadu ar bolisi cenedlaethol a hyrwyddo arfer gorau mewn mentrau cymdeithasol trwy Gymru i gyd*".

Fel y cyfryw, mae'r tri chorff sy'n destun i'r adolygiad hwn yn y broses o ddatblygu perthynas â'r Gynghrair a byddwn yn archwilio'r cynnydd yn y cyswllt hwn mewn adrannau diweddarach o'r adroddiad hwn.

3.2.3 Ymarfer Mapio Mentrau Cymdeithasol

Yn Hydref 2009, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru "*Mapio Gweithgarwch Mentrau Cymdeithasol yng Nghymru: Deall er mwyn dylanwadu*"²².

²¹ Ffynhonnell: Tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan y Gynghrair i Ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Dysgu i rôl Mentrau Cymdeithasol yn Economi Cymru. Gweler: <http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=190533&ds=7/2010>

²² Gweler: <http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/publications/comm/091008mappingreporten.pdf>
Gwnaed y gwaith gan Sector Projects, Geoeconomics a The Research Unit.

Roedd prif ganfyddiadau'r ymarfer mapio o ran proffil yr economi gymdeithasol yng Nghymru yn cynnwys:

Dynodwyd ychydig dros 3,000 o sefydliadau yn cynnal gweithgarwch menter gymdeithasol yng Nghymru;

Amcangyfrifir mai maint y sector mentrau cymdeithasol yw £2.2 biliwn, sy'n cyfateb i tua 2.6% o drosiant yr holl fentrau yng Nghymru;

Mae mwyafrif mentrau cymdeithasol Cymru yn ymwneud â hyfforddiant ac addysg (i bobl ddifreintiedig yn aml); y celfyddydau a'r laith

Gymraeg; mentrau cymdeithasol, y sector gwirfoddol neu wasanaethau cefnogi busnes; iechyd a gofal cymdeithasol; a chwaraeon a hamdden;

Cynigir tua 29,000 o gyfleoedd amser llawn, 20,000 rhan-amser a

105,000 o gyfleoedd gwirfoddoli gan fentrau cymdeithasol yng

Nghymru²³.

Fe wnaeth yr ymarfer mapio nifer o argymhellion hefyd, sy'n cynnwys:

Y dylai'r wybodaeth ar weithgareddau mentrau cymdeithasol gael ei chynnal;

Bod y sector mentrau cymdeithasol yng Nghymru yn amrywiol a rhaid i wasanaethau cefnogi gael eu teilwrio yn addas;

Rhaid i Awdurdodau Lleol ymwneud yn rhagweithiol â'r agenda mentrau cymdeithasol;

Dylai cefnogaeth busnes gael ei deilwrio i anghenion gwahanol fathau o fentrau cymdeithasol;

Rhaid datblygu'r isadeiledd cyllid i gefnogi mentrau cymdeithasol cynaliadwy yng Nghymru;

Rhaid gwella monitro perfformiad a thryloywder mentrau cymdeithasol;

Dylid cynnal "*ymgyrch godi ymwybyddiaeth a marchnata*" sy'n

"ymestyn at" y cyhoedd yn fwy eang²⁴.

Mae'r ymarfer mapio yn cyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu Mentrau

Cymdeithasol 2009 o ran bod y sefydliadau sy'n cael eu hystyried yn rhan o'r

²³ Crynodeb o dudalen 5 a 6 yr Adroddiad Terfynol.


²⁴ Crynodeb o dudalen 10 ac 11 yr adroddiad.

sector mentrau cymdeithasol yng Nghymru “yn gwahaniaethu yn sylweddol iawn o ran eu maint, eu nodau busnes a’u gallu, diwylliant, nodau cymdeithasol a model ariannol”. Yn ychwanegol, mae’r adroddiad yn argymhell “bod angen rhagor o gefnogaeth ar gyfer helpu mentrau cymdeithasol ddatblygu fel busnesau cynaliadwy. Mae’r rhan fwyaf yn dda ar agweddau “cymdeithasol” yr hyn y maent yn ei wneud, ond mae llawer llai yn cael eu rhedeg fel busnesau effeithiol a hyfyw”.

Mae’r ymarfer mapio yn dangos mai awdurdodau lleol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cyngorau Gwirfoddoli Sirol a Chanolfan Cydweithredol Cymru yw’r prif ffynonellau cyngor a chefnogaeth a ddefnyddir gan fentrau cymdeithasol yng Nghymru.

Ffigwr 1: Siart a dynnwyd o’r Ymarfer Mapio. Prif Ffynonellau Cefnogaeth i Fentrau Cymdeithasol²⁵.

C Beth yw’r tair neu’r pedair prif ffynhonnell a ddefnyddir gennych i gael cymorth a chynngor i ddatblygu’ch sefydliad? [AMLGODIO]



Sylfaen: 618 o sefydliadau

Ffynhonnell: TRU

Amlygwyd bod darparwyr cefnogaeth arbenigol i fentrau cymdeithasol hefyd yn ddarparwyr cefnogaeth bwysig ac roedd hyn yn cynnwys CYD Cymru (y cyfeiriwyd atynt gan 4% o’r ymatebwyr i’r rhan hon o’r ymarfer mapio²⁶) a

²⁵ Tynnwyd o dudalen 56 o’r Ymarfer Mapio. Y sampl ar gyfer y siart oedd 618 o sefydliadau.

²⁶ Allan o gyfanswm o 618 a ymatebodd i’r cwestiwn.

Social Firms Wales (y cyfeiriwyd atynt gan 2% o'r ymatebwyr i'r rhan hon o'r ymarfer mapio²⁷).

Tanlinellodd yr ymarfer mapio hefyd y gwahanol fathau o gefnogaeth sy'n ofynnol gan fentrau cymdeithasol o feintiau gwahanol.

Ffigwr 2: Tri phrif feysydd cefnogaeth busnes yn ôl trosiant²⁸

£0-£25,000	£25,001 - £100,000	£100,000 - £500,000	£500,001+
Mynediad at gyllid	Mynediad at gyllid	Mynediad at gyllid	Cynllunio busnes a strategol
Gwirfoddolwyr	Gwirfoddolwyr	Cynllunio busnes a strategol	Mynediad at gyllid
Eiddo	Datblygu partneriaeth	Arallgyfeirio ffrydiau incwm / tendro am gontractau	Arallgyfeirio ffrydiau incwm

Dengys hwn bod mynediad at gyllid yn thema gyson o ran y math o gefnogaeth sy'n ofynnol ar draws yr ystod o drosiant. Mae cyngor a chefnogaeth ar gynllunio busnes a strategol ac arallgyfeirio ffrydiau incwm yn dod yn fwy amlwg yn y bandiau trosiant uwch. Mae hyn yn arbennig o ddiddorol yng nghyd-destun proffil mentrau cymdeithasol a gefnogir gan y tri chorff a adolygir yma y byddwn yn eu trafod mewn adrannau diweddarach o'r adroddiad.

3.2.4 Rhaglen Adnewyddu'r Economi

Roedd cyhoeddiad *Rhaglen Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd* (yng Ngorffennaf 2010) gan y Dirprwy Brif Weinidog yn amlinellu rhai newidiadau sylfaenol o ran polisi datblygu economaidd ac adnewyddu yng Nghymru.

Agwedd sydd yn berthnasol iawn i'r adolygiad hwn yw bod Rhaglen Adnewyddu'r Economi yn tanlinellu, bod mentrau cymdeithasol yn y cyd-destun economaidd presennol, yn debygol o ddod yn gynyddol bwysig wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

²⁷ Allan o sail o 619 a ymatebodd i'r cwestiwn.

²⁸ Ffynhonnell: Atgynhyrchwyd o dudalen 60 yr Adroddiad Mapio.

“Rydym [Llywodraeth Cynulliad Cymru] yn cydnabod y cyfraniad positif a wneir gan fentrau cymdeithasol hyfyw i economi gynaliadwy, amrywiol a chryf. Mae mentrau cymdeithasol yn dod yn fwy, ac nid yn llai, perthnasol yn yr economi fodern - wrth ddarparu atebion i ddulliau newydd a rhai sy'n canolbwyntio ar y dinesydd wrth gyflawni gwasanaethau cyhoeddus; wrth alluogi pobl leol ac adfywio cymunedau; ac wrth gyflawni amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol”²⁹.

Mae'r Cynllun hefyd yn amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran ail ganolbwyntio cefnogaeth fusnes. I'r diben hwn, mae'r Cynllun yn dangos yn glir bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu “*canolbwyntio ein hadnoddau lle gallwn ychwanegu'r gwerth mwyaf. Bydd hyn yn galluogi twf i'r economi yn ei chyfanrwydd yn hytrach na'n bod ni'n darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i fusnesau unigol*”³⁰.

Aiff y Cynllun ymlaen i ddweud “*Erys rôl i'r Llywodraeth annog entrepreneuriaeth – mae'n hanfodol ar gyfer datblygu economi gref ac felly'n dyngedfennol i'n ffyniant yn y dyfodol*”³¹. Mae'r Cynllun yn esbonio'n glir “*Byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar **fusnesau sy'n dechrau sydd â photensial uchel** ac sydd ag ansawdd uchel o ran swyddi a'r incwm y maent yn eu cynhyrchu*”, ac ar yr un pryd “*Byddwn yn **lleihau ein cymorth un i un** y tu hwnt i'r cam dechrau busnes ac yn creu lle ar gyfer cymorth busnes sector preifat i fusnesau mwy sefydledig*”³².

3.2.5 Y Gronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol

Un o'r prif gyhoeddiadau a wnaed yng Nghynllun 2009 oedd sefydlu Cronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol. Mae'r Gronfa yn cael ei hariannu a'i chyflwyno mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chronfa'r Loteri Fawr ac mae'n cynnig cyllid refeniw a chyfalaf i gefnogi trosglwyddo

²⁹ Rhaglen Adnewyddu'r Economi (Tudalen 48).

³⁰ Rhaglen Adnewyddu'r Economi (Tudalen 38).

³¹ Rhaglen Adnewyddu'r Economi (Tudalen 46)

³² Rhaglen Adnewyddu'r Economi (Tudalen 46-47).

asedau, fel tir ac adeiladu, o sefydliadau sector cyhoeddus i berchnogaeth gymunedol.

Bwriad y Gronfa yw *“helpu cymunedau i ddod yn gryfach a mwy cynaliadwy trwy eu cynorthwyo i gael a datblygu asedau fel tir neu adeiladau ”*. Bydd y Gronfa yn gwneud hyn trwy helpu i *“datblygu asedau a drosglwyddwyd o gyrff sector cyhoeddus i gyrff menter sy’n cynnwys y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu ac o fudd iddynt”*.

3.2.6 Adroddiad Pwyllgor Menter a Dysgu: Rôl Mentrau Cymdeithasol yn Economi Cymru

Yn ystod cyfnod olaf yr adolygiad hwn, cyhoeddodd Pwyllgor Menter a Dysgu'r Cynulliad Cenedlaethol adroddiad ar Rôl Mentrau Cymdeithasol yn Economi Cymru³³.

Diben ymchwiliad y Pwyllgor oedd *“datblygu dealltwriaeth o rôl bresennol mentrau cymdeithasol yn economi Cymru a’r heriau sy’n eu hwynebu; ystyried y cyfleoedd posibl ar gyfer datblygu economaidd cynaliadwy ac adfywio cymunedol a gyflwynir gan fodel busnes y mentrau cymdeithasol; a dylanwadu ar ddatblygu polisi a chymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â mentrau cymdeithasol ac entrepreneuriaid yn y dyfodol”*³⁴.

Mae'r adroddiad yn gwneud cyfres o 16 argymhelliad, nifer ohonynt yn berthnasol yng nghyd-destun yr adolygiad hwn. Mae'r rhain yn cynnwys argymhellion:

“Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru i nodi'n strategol ardaloedd yng Nghymru lle

³³ Tachwedd 2010. Ffynhonnell: http://www.assemblywales.org/cy/the_role_of_social_enterprises_in_the_welsh_economy_-_e.pdf

³⁴ Tudalen 8.

gallai mentrau cymdeithasol chwarae rhan bwysig mewn cymunedau lleol³⁵;

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud rhagor er mwyn creu amgylchedd sy'n galluogi nodi a datblygu unigolion a allai gyflawni'r rôl o entrepreneuriaid cymdeithasol a rhoi cefnogaeth barhaus iddynt³⁶;

Dylai Gweinidogion ddiffinio lefelau'r gweithgarwch a'r canlyniadau y maent am i fentrau cymdeithasol ac entrepreneuriaid cymdeithasol eu cyflawni yn y dyfodol³⁷;

Dylai Gweinidogion Cymru symud canolbwynt polisi ac atebolrwydd mentrau cymdeithasol yn y Cabinet i'r portffolio datblygu economaidd a sefydlu uned mentrau cymdeithasol unigryw o fewn Adran yr Economi a Thrafnidiaeth³⁸;

Ni ddylai'r potensial sydd gan fentrau cymdeithasol gael ei weld fel modd o lyncu gwasanaethau sydd angen eu darparu'n rhatach, ond yn ffordd o ddatblygu dulliau o ddarparu gwasanaethau sy'n newydd, yn arloesol ac yn fwy effeithiol³⁹;

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod adrannau'r Llywodraeth, awdurdodau lleol a sefydliadau cymunedol yn gwbl eglur ynghylch sut mae trosglwyddo asedau⁴⁰;

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddysgu oddi wrth gronfeydd buddsoddi eraill ac yn adolygu'r cymorth ariannol mae'n ei gynnig i

³⁵ Argymhelliad 1, Tudalen 12

³⁶ Argymhelliad 2, Tudalen 12

³⁷ Argymhelliad 3, Tudalen 14

³⁸ Argymhelliad 4, Tudalen 15.

³⁹ Argymhelliad 5, Tudalen 17

⁴⁰ Argymhelliad 6, Tudalen 18

*fentrau cymdeithasol er mwyn bodloni eu hanghenion yn fwy priodol o ran cymorth i ddechrau a datblygu.*⁴¹;

*Mae lle i greu system ariannu bwrpasol ar gyfer y sector mentrau cymdeithasol yng Nghymru*⁴²;

*Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gydag ystod o bartneriaid, gan gynnwys Cynghair Mentrau Cymdeithasol Cymru, i wella hygyrchedd, ansawdd ac argaeledd cymorth a chyngor busnes i sector y mentrau cymdeithasol, a sicrhau y gellir darparu cyngor ariannol a chyngor busnes o lefel uchel gyda'i gilydd mewn un lle fel pecyn cydlynol a chynhwysfawr i fentrau ledled Cymru er mwyn hwyluso eu twf*⁴³.

3.2.7 Y Gymdeithas Fawr

Er nad yw'n berthnasol yn uniongyrchol i Gymru, mae'r fenter *Cymdeithas Fawr* a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru a Deyrnas Unedig yn cyfeirio (mewn modd tebyg i Raglen Adnewyddu'r Economi yng Nghymru) at gynyddu'r pwyslais o bosibl ar rôl mentrau cymdeithasol a mentrau cydweithredol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus: "*byddwn yn cefnogi creu ac ehangu cwmnïau cydfuddiannol, cydweithredol, elusennau a mentrau cymdeithasol, ac yn cefnogi'r grwpiau hyn i gael mwy fyth o ran yn y gwaith o redeg gwasanaethau cyhoeddus*".⁴⁴

O ddiddordeb arbennig i CYD, un o'r themâu a amlinellir yn y cysyniad *Cymdeithas Fawr* yw "*cynllun hawl i brynu cymunedol*" a fyddai'n "*rhoi grym i bobl leol i ddiogelu asedau cymunedol sydd dan fygythiad o gael eu cau*"⁴⁵.

3.3 Perfformiad o'i Gymharu â Nodau ac Amcanion Cyllid Craidd

⁴¹ Argymhelliad 13, Tudalen 30

⁴² Argymhelliad 14, Tudalen 31

⁴³ Argymhelliad 15, Tudalen 33

⁴⁴ Ffynhonnell: http://www.cabinetoffice.gov.uk/sites/default/files/resources/building-big-society_0.pdf

⁴⁵ Nodyn briffio Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Prydain (NCVO) ar y Gymdeithas Fawr, Mehefin 2010. Tudalennau 2 a 4.

Yn yr adran hon rydym yn ystyried nodau ac amcanion y cytundebau cyllid craidd sydd yn eu lle rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a phob un o'r cyrff sy'n derbyn, sut y mae'r arian craidd wedi ei ddefnyddio a'r graddau y mae nodau, amcanion a dangosyddion perfformiad allweddol a osodwyd ar gyfer pob un ohonynt wedi cael eu cyflawni.

Gwneir y dadansoddiad hwn ar sail adolygu'r dogfennau "Atodlen 1" sydd ynghlwm wrth y llythyr dyfarnu grant a anfonwyd at bob corff ac sy'n amlinellu'r nodau, gweithredoedd a'r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer gweithgareddau y cafwyd cyllid craidd ar eu cyfer. Rydym hefyd wedi dadansoddi nifer o adroddiadau chwarterol a ddarparwyd gan bob un o'r tri sefydliad sy'n dangos y cynnydd a wnaed.

3.3.1 Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru

Mae atodiad Atodlen 1 wrth y llythyr cynnig arian craidd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru at CYD Cymru yn nodi cyfres o bedair nod allweddol sy'n cysylltu'n uniongyrchol â Chynllun Busnes CYD Cymru. Dan y pedair nod arweiniol yma mae cyfres o 38 Gweithred Allweddol a 45 Dangosydd Perfformiad Allweddol. Y pedair nod arweiniol yn nogfen Atodlen 1 CYD Cymru yw:

Ffigwr 3: Crynodeb o Nodau Cytundeb Cyllid Craidd CYD Cymru

Nod	Disgrifiad
1	Tyfu'r Rhwydwaith Ymddiriedolaethau Datblygu yng Nghymru;
2	Hwyluso Rhwydwaith Dysgu Ymarferwyr CYD Cymru ⁴⁶ a thyfu'r ymddiriedolaethau datblygu sy'n bodoli;
3	Hyrwyddo arfer da a manteisio ar werth ac effaith y rhwydwaith ymddiriedolaethau datblygu;
4	Hyrwyddo a hwyluso sectorau twf a chlystyrau o fewn ymddiriedolaethau datblygu a rhwydweithiau mentrau cymdeithasol yng Nghymru.

⁴⁶ RegenSchool Cymru.

Fe wnaethom adolygu wyth adroddiad chwarterol a baratowyd gan CYD Cymru ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y cyfnod o Ebrill 2008 i Fehefin 2010. O'r adroddiadau hyn, mae'n amlwg bod CYD Cymru wedi bod ac yn parhau i gyflawni amrywiaeth o wasanaethau cefnogi a gweithgareddau datblygu strategol sy'n addas i'r nodau a'r gweithgareddau allweddol yn eu cytundeb ariannu craidd ac yn unol â hwy.

Mae'r enghreifftiau nodweddiadol o weithgareddau yr ymgwymerwyd â hwy gan CYD Cymru gyda chyllid craidd yn cynnwys (ni fwriadwyd i hon fod yn rhestr holl gynhwysol):

- Creu ac ymateb i ymholiadau gan ymddiriedolaethau datblygu sy'n bodoli/posibl;
- Ystyried a chymeradwyo ceisiadau am aelodaeth o CYD Cymru;
- Trefnu a mynd i gyfarfodydd amrywiol, gwneud cyfraniadau fel cynrychiolydd a enwebwyd neu aelod (e.e. Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru) a rhoi cyflwyniadau i hyrwyddo'r model ymddiriedolaeth ddatblygu i randdeiliaid sector cyhoeddus a thrydydd sector a sefydliadau a all ddatblygu yn ymddiriedolaethau datblygu;
- Darparu cefnogaeth a chynghor parhaus wedi ei deilwrio (e.e. trwy wiriadau iechyd) i aelodau CYD (trwy gyfarfodydd un i un a gweithdai) ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud â datblygu busnes;
- Trefnu a mynd i Gyfarfodydd Bwrdd CYD a Chynadleddau;
- Cynhyrchu a rhannu deunydd codi ymwybyddiaeth ac arfer da fel taflenni, astudiaethau achos digidol a Chyfeirlyfr CYD Cymru o aelodau a gyhoeddwyd yn 2010;
- Cynhyrchu papurau briffio ar bolisi (e.e. briffio ar y cyd a baratowyd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) a chyflwyno tystiolaeth (e.e. i Bwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru);
- Datblygu a darparu'r prosiect RegenSchool Cymru gyda'r cyrff sy'n ei noddi (Ymddiriedolaeth y Meysydd Glo a Cylch);
- Trefnu ymweliadau, cyswllt a chyfleoedd i gydweithio rhwng ymddiriedolaethau datblygu sy'n cynnwys rhannu arfer da;
- Datblygu a chynnal a chadw gwefan CYD;

Gweithio a chyfrannu at brosiectau amrywiol a chyhoeddiadau CYD y Deyrnas Unedig (e.e. Arolwg Ymddiriedolaethau Datblygu 2010⁴⁷).

Er ei bod yn amlwg bod CYD Cymru yn cyflawni swm sylweddol o weithgareddau addas gyda'i chyllid craidd ar draws y pedair nod yn y cytundeb ariannu craidd, nid yw mor glir sut y mae'r gweithgaredd yn cysylltu â'r dangosyddion perfformiad allweddol.

Nid yw rhai o'r targedau/dangosyddion perfformiad allweddol yn Atodlen 1 wedi eu diffinio mor glir ag y gallent fod. Er enghraifft, mae'r dangosydd perfformiad cyntaf dan Nod 1 (Tyfu'r rhwydwaith ymddiriedolaethau datblygu yng Nghymru) yn darllen *"9 aelod llawn ac yn ymddangos bob blwyddyn a 5 aelod/partner cysylltiol newydd"*.

Fe wnaethom ddarganfod bod y modd y lluniwyd rhai o'r dangosyddion perfformiad allweddol (fel yr un a ddyfynnir uchod) yn ei gwneud yn anodd asesu pa gynnydd cyffredinol a wnaed. Mae hyn yn cael ei waethygu gan y ffaith nad yw adroddiadau cynnydd CYD yn dangos gwybodaeth am berfformiad wedi ei gronni⁴⁸. Ar ben hynny, nid yw'n glir ar unwaith o'r adroddiadau cynnydd pa weithgaredd neu allbwn y gellir ei roi gyferbyn â pha elfen o'r dangosydd perfformiad allweddol.

Mae'r deunydd a gofnodir gan CYD yn yr adran *"cyflawnwyd"* yn ei adroddiadau chwarterol yn seiliedig ar ddisgrifio cymysgedd o weithgareddau ac allbynnau. Er ei bod yn glir yn y rhan fwyaf o achosion bod y gweithgaredd sy'n cael ei gofnodi yn briodol a pherthnasol, mae diffyg cysondeb o ran y termau a ddefnyddir ac mewn rhai enghreifftiau mae'n ymddangos bod yr un wybodaeth yn cael ei chofnodi fwy nag unwaith. Fe wnaethom ddarganfod bod hyn yn ei gwneud hi'n gymhleth iawn i lunio darlun clir neu gywir o'r perfformiad yn gyffredinol.

⁴⁷ Nid yw CYD Cymru yn cyfrannu'n ariannol at yr Arolwg Blynyddol.

⁴⁸ Rydym yn deall bod CYD yn y gorffennol wedi rhoi adroddiad cronus o'i gymharu â dangosyddion perfformiad ond nid yw hyn wedi digwydd yn ystod y cyfnod cyllid craidd hwn.

Er enghraifft, daeth ein hymdrech orau ar fesur y nifer o aelodau CYD newydd (llawn ac yn ymddangos) ers cychwyn y cytundeb cyllid craidd⁴⁹ at gyfanswm o 16 (erbyn Mehefin 2010). Er na allwn fod yn hollol siŵr am gywirdeb y dadansoddiad hwn⁵⁰, mae'n cymharu â tharged o 27 o aelodau newydd ac yn ymddangos (naw ar gyfer pob blwyddyn am dair blynedd) ac mae'n awgrymu (os yw ein dadansoddiad o'r cynnydd hyd yn hyn yn gywir) y bydd yn anodd i CYD gyflawni'r targed hwn yn llawn erbyn diwedd y trefniant cyllid craidd ym Mawrth 2011.

O ran aelodau cysylltiol newydd, mae ein dadansoddiad ar yr adroddiadau chwarterol yn awgrymu bod wyth o aelodau cysylltiol newydd wedi ymuno â CYD (erbyn Mehefin 2010) o'u cymharu â'r targed cyffredinol o 15 ar gyfer y cyfnod cyllid craidd.

Mae dangosydd perfformiad arall dan y nod cyntaf yn Atodlen 1 yn darllen fel hyn *“10 sefydliad newydd ac sy'n ymddangos y flwyddyn yn cael gwasanaethau cyngor cychwyn busnes gan CYD a Llawlyfr CYD a Gwiriad Iechyd”*.

Ar ôl arolygu'r wyth adroddiad chwarterol (hyd Fehefin 2010) mewn cryn fanylder, dim ond at bum gwiriad iechyd a gwblhawyd y gallem ni ganfod cyfeiriad, er ein bod wedi canfod cyfeiriadau at CYD yn *“creu cyswllt”* â 19 sefydliad ynglŷn â gwiriadau iechyd. Rydym yn deall⁵¹ bod yr 19 sefydliad yma wedi cael gwahoddiad i gynnal gwiriadau iechyd i'w dadansoddi eu hunain (yn seiliedig ar dempled a ddarparwyd gan CYD Cymru) sy'n orfodol cyn cael ymaelodi â CYD ac y bydd llond llaw o'r rhain (ers adroddiad Mehefin 2010) wedi symud ymlaen o'r cyfnod hunan wirio i gael gwiriadau iechyd mwy manwl, un i un. Ond mae'n ymddangos yn annhebygol iawn y bydd y targed cyffredinol o gyflawni 30 gwiriad iechyd llawn yn cael ei gyrraedd erbyn diwedd Mawrth 2011.

⁴⁹ Yn seiliedig ar weithio trwy'r wybodaeth ym mhob un o'r wyth adroddiad chwarterol a chasglu'r wybodaeth at ei gilydd

⁵⁰ Gwiriwyd hyn gyda Phrif Weithredwr CYD Cymru oedd yn meddwl bod y dadansoddiad yn rhesymol.

⁵¹ Ar sail trafodaeth gyda Phrif Weithredwr CYD Cymru.

Yn ein barn ni nid yw'r 38 gweithred allweddol a'r 45 dangosydd perfformiad allweddol sydd yn nogfen Atodlen 1 CYD Cymru, yn ddigon clir na CAMPUS⁵². Er ein bod yn rhoi blas uchod ar berfformiad o'i gymharu â rhai o'r dangosyddion hawsaf eu mesur yn y cytundeb Atodlen 1, credwn, yn ymarferol, bod llawer gormod o weithredoedd a dangosyddion perfformiad sydd bron yn gyfan gwbl wedi canolbwyntio ar fesuriadau proses ac allbwn. Yn ychwanegol, mae absenoldeb rhagor o fesuriadau canlyniadau ac effaith y gellid cymharu perfformiad yn realistig â hwy yn cyfyngu ar werth y ddogfen Atodlen 1 fel offeryn monitro a rheoli perfformiad ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru a CYD Cymru.

3.3.2 Social Firms Wales

Mae atodiad Atodlen 1 i lythyr dyfarnu cyllid craidd Social Firms Wales yn seiliedig ar ddogfen dan y teitl "*Diversity and Employment*" a baratowyd gan Social Firms Wales. Mae'r ddogfen yn amlinellu cyfres o chwe amcan, pob un ohonynt yn gysylltiedig â dull o fesur canlyniad. Dyma'r unig un o'r tri chytundeb sy'n ceisio cysylltu amcanion â chanlyniadau.

Ffigwr 4: Crynodeb o Amcanion a Chanlyniadau Cytundeb Cyllid Craidd Social Firms Wales

Amcan	Disgrifiad	Canlyniad
1	Datblygu dwy bartneriaeth newid cymdeithasol mewn dwy ardal awdurdod lleol	Dwyn at ei gilydd bartneriaethau cefnogol traws-sectoraidd a reolir sy'n cefnogi datblygiad cymunedol ac economaidd – Yr ail ganlyniad yw bod y fframwaith partneriaeth yn gweithredu fel porth brocera lle gall yr holl gyfleoedd cymunedol gael

⁵² Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol.

		eu cysylltu a'u defnyddio.
2	Cefnogi datblygiad pum cwmni cymdeithasol/busnes a gefnogir yng Nghymru	Cwmnïau Cymdeithasol yn dilyn proses ddatblygu Cwmni Cymdeithasol wedi ei strwythuro hyd at y cam gweithredu a thu hwnt.
3	Creu pum cwmni/busnes cymdeithasol â rhagolygon tymor hir	Cwmnïau sy'n hyfyw yn fasnachol a ddatblygwyd gyda photensial i fodoli tu hwnt i'r cyfnod ariannu cychwynnol.
4	Codi ymwybyddiaeth o'r broses peirianwaith gwahanu i sefydliadau sydd yng nghyfnod cynnar datblygu'r prosiect gan danlinellu a datblygu elfen fasnachol tuag at statws cwmni cymdeithasol	Dull wedi ei ganolbwyntio o weithredu datblygu Cwmni Cymdeithasol a'i sefydlu, gan amharu cyn lleied â phosibl ar weithgareddau'r prosiect cymdeithasol
5	Cyflwyno pedwar gweithdy i gefnogi datblygiad amgylchedd gwaith cefnogol.	Creu cyflogwyr gwybodus a chefnogol a all gefnogi'r bobl â'r anfantais fwyaf yn y gweithle
6	Codi ymwybyddiaeth o gwmnïau cymdeithasol a hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth ar draws Cymru a rhoi cefnogaeth arbenigol addas i'r sector.	Cynnig rhagor o gyfleoedd datblygu ar gyfer Cwmnïau Cymdeithasol y dyfodol a datblygu partneriaethau.

Fe wnaethom adolygu saith adroddiad chwarterol gan Social Firms Wales ar gyfer y cyfnod rhwng Ionawr 2009 a Gorffennaf 2010. Mae'r adroddiadau chwarterol yn cael eu cyflwyno yn broffesiynol ac yn rhoi manylion cymysgedd addas o weithgaredd datblygu strategol a chyflwyno gwasanaeth ar draws y chwe amcan yn y cytundeb cyllid craidd.

Mae'r enghreifftiau nodweddiadol o'r gweithgareddau a wneir gan Social Firms Wales gyda'r cyllid craidd yn cynnwys (ni fwrriadwyd i hon fod yn rhestr hollgynhwysol):

Ysgogi a mynd i gyfarfodydd gyda rhanddeiliaid allweddol (trydydd sector a'r sector cyhoeddus yn bennaf) i godi ymwybyddiaeth o gwmnïau cymdeithasol yn gyffredinol a'r cysyniad o allanoli⁵³ ac archwilio ffyrdd y gall Social Firms Wales weithio gyda nhw o bosibl ac ychwanegu gwerth at weithgareddau eraill;

Darparu cefnogaeth uniongyrchol, un i un i gwmnïau cymdeithasol sy'n bodoli ac sy'n ymddangos o'r newydd yng Nghymru ar amrywiaeth o faterion datblygu;

Mynd i gyfarfodydd â Gweinidog a swyddogion allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru;

Gweithio gyda phartneriaid eraill, gan gynnwys mewn sawl enghraifft Canolfan Cydweithredol Cymru i gynorthwyo i sefydlu mentrau cymdeithasol newydd ac i gydlynw gweithgareddau ar y cyd (fel gweithdai);

Cefnogi creu Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru gan gynnwys aelodaeth (trwy Brif Weithredwr Social Firms Wales) ar fwrdd y Gynghrair ac ymwneud â phenodi Prif Weithredwr cyntaf y Gynghrair: Cyfarfodydd a chyfnewid arfer da gyda chydweithwyr o Social Firms Scotland a'r Deyrnas Unedig;

Cymryd rhan mewn amrywiol brosiectau ymchwil;

Cymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau gan y wasg a chysylltiadau cyhoeddus fel cylchlythyrau ar-lein, cadw presenoldeb ar wefan, mynychu cynadleddau a fforymau a noddi atodiadau at bapurau newydd/cylchgronau.

⁵³ Mae "A Manual to Externalising Social Firm Activity" a gyhoeddwyd ar wefan Social Firms yn cynnig y diffiniad canlynol yng nghyswllt allanoli o'r sector cyhoeddus. "Allanoli yw trosglwyddo gwasanaeth(au) a oedd yn cael eu darparu o'r blaen gan staff a gyflogwyd yn gyhoeddus i gwmni masnachu a ffurfiwyd o'r newydd sy'n gweithredu fel arfer fel endid cyfreithiol annibynnol ac ar wahân. Gweler: <http://socialfirmsuk.co.uk/category/tags/externalisation>

Mae'r adroddiadau chwarterol yn dangos bod Social Firms Wales yn ymwneud â llawer iawn o weithgareddau ar draws Cymru i gefnogi cwmnïau cymdeithasol unigol (newydd ac wedi ymsefydlu).

Mae nifer o'r adroddiadau chwarterol, fodd bynnag, yn eithaf maith ac yn cynnwys manylion cefndir yr ydym ni'n eu hystyried yn ddiangen ar gyfer y ffurf hon o adroddiad chwarterol. Yn wir byddai peth o'r deunydd yn fwy addas i gael ei lunio fel astudiaeth achos.

Fodd bynnag roedd yr adroddiad chwarterol olaf yn y gyfres y buom yn eu hadolygu yn llawer tynnach o ran fformat, yn haws ei ddilyn ac yn cynnwys peth gwybodaeth gronnu sy'n awgrymu bod Social Firms Wales wedi perfformio'n dda o'i gymharu â'r targedau allbwn a osodwyd ar gyfer Amcanion 1 a 2.

Ar gyfer amcan 2, mae adroddiad chwarterol Awst 2010 yn nodi *"rhoddwyd cefnogaeth i 90 a mwy o sefydliadau o ran datblygu Cwmni Cymdeithasol"*. Mae'n ymddangos bod hyn yn dangos cynnydd rhagorol gan yr hyn sy'n ymddangos yn dîm bychan iawn yn Social Firms Wales, er ei fod hefyd yn awgrymu efallai bod y targed gwreiddiol o gefnogi pump o gwmnïau cymdeithasol wedi ei osod yn rhy isel. Mae'n awgrymu hefyd o ran perfformiad o'i gymharu ag Amcan 3 (isod) yng nghyswllt cwmnïau cymdeithasol a grëwyd bod y gyfradd gyfnewid rhwng y rhai y rhoddwyd cyngor a chefnogaeth iddynt a'r rhai sy'n cychwyn fel cwmnïau cymdeithasol yn eithaf isel.

Roedd y canlyniadau cronnu a roddwyd yn Awst 2010 hefyd yn galonogol dan Amcan 3 gyda Social Firms Wales wedi cefnogi creu saith o gwmnïau cymdeithasol (wedi eu cronni am gyfnod y cyllid craidd) o'u cymharu â'r allbwn y cytunwyd arno o bump (er mai dim ond ar gyfer chwe chwmni roedd tystiolaeth yn yr adroddiad). Yn ychwanegol, yn adroddiad Awst 2010, adroddodd Social Firms Wales bod y chwe chwmni a restrwyd rhyngddynt yn cyflogi staff yn cyfateb i 24 amser llawn, 10 yn cyfateb i staff rhan-amser a 26 ymgeisydd ar Leoliadau Cronfa Swyddi'r Dyfodol. Er bod hyn yn wybodaeth

ddefnyddiol iawn ac yn cynnig arwydd defnyddiol o raddfa'r cwmnïau cymdeithasol sy'n cael eu cefnogi, nid yw'n glir o ddarllen yr adroddiad chwarterol faint o'r swyddi yma y gellir eu priodoli yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i'r gefnogaeth a gafwyd gan Social Firms Wales.

Dangosodd Social Firms Wales hefyd gynnydd cadarn mewn cymhariaeth ag Amcan 5, gan gyflwyno cyfanswm cronus o 22 o weithdai mewn cymhariaeth â'r targed gwreiddiol o bedair. Er bod hyn eto yn cynrychioli ymdrech ragorol gan dîm Social Firms Wales, mae'n awgrymu efallai bod y targed gwreiddiol wedi bod yn rhy isel.

Dengys yr adroddiadau chwarterol hefyd bod Social Firms Wales yn archwilio cyfleoedd i ddatblygu meysydd ychwanegol/newydd i weithio gyda'r cyhoedd a sefydliadau'r trydydd sector sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cyflogi a datblygu (e.e. cyfarfodydd a gynhaliwyd gyda rhai o'r awdurdodau lleol sy'n ymwneud â rhedeg y fenter gyflogi COASTAL⁵⁴ yn Ne Cymru).

Mae asesu cynnydd o'i gymharu ag amcanion pedwar a chwech yng nghytundeb cyllid craidd Social Firms Wales yn anos. Mae'n amlwg bod tîm Social Firms Wales wedi cynnal gweithgareddau sylweddol i hyrwyddo'r cysyniad o allanoli (Amcan 4) trwy gyfarfodydd a chyflwyniadau amrywiol ac mae'r dystiolaeth y gwnaethom ei chasglu fel rhan o'n hymweliadau â mentrau cymdeithasol yn cadarnhau hyn. Mae adroddiad Awst 2010 hefyd yn nodi bod dros 100 o gyfleoedd wedi cael eu cymryd i gyflwyno a chodi ymwybyddiaeth o gwmnïau cymdeithasol (Amcan 6). Er bod y gweithgaredd hwn yn ymddangos yn addas ac yn unol â'r cytundeb cyllid craidd, mae'n anodd asesu ar sail adroddiadau chwarterol i ba raddau y mae'r gweithgaredd yn cael effaith o ran y canlyniadau a nodir yn Amcanion 4 a 6.

3.3.3 *Canolfan Cydweithredol Cymru*

⁵⁴ Creating Opportunities and Skills Teams (COASTAL) Gweler: <http://www.swansea.gov.uk/index.cfm?articleid=24819>

Yn wahanol i'r ddau gorff arall, nid yw Canolfan Cydweithredol Cymru yn defnyddio ei chyllid craidd i gyflwyno gwasanaethau ymgynghorol uniongyrchol un i un, er bod yr elfen cyllid craidd yn cael ei defnyddio i gynnig rhaglen o ddigwyddiadau hyfforddi a anelwyd at fentrau cymdeithasol. Ariennir gweithgareddau darparu gwasanaeth y Ganolfan ar wahân trwy nifer o brosiectau mawr, a ariennir o Ewrop (gweler Adran 3.5 isod).

Ffigwr 5: Crynodeb o Nodau Cytundeb Cyllid Craidd Canolfan Cydweithredol Cymru

Nod	Disgrifiad
1	Cryfhau cysylltiadau o fewn y Cynulliad
2	Llunio'r Grŵp Cydfuddiannol Cymunedol
3	Cynnal gwaith ymchwil yn y sector gydweithredol i ddatblygu syniadau newydd a throsglwyddo arfer gorau
4	Codi ymwybyddiaeth o gwmnïau cydweithredol ac undebau credyd trwy farchnata, trosglwyddo arfer gorau ac astudiaethau achos
5	Cymryd rhan yn y rhwydweithiau presennol i sicrhau bod cyfathrebu gwell a pharhaus rhwng partneriaid
6	Datblygu rhaglen o fentrau cymdeithasol cydweithredol yn Rhaglen Blaenau'r Cymoedd
7	Hyrwyddo a hwyluso sectorau twf penodol gan ganolbwyntio ar gystyrau cydweithredol (adeiladu, ymddiriedolaethau tir cymunedol, tai)
8	Datblygu rhai mentrau cymdeithasol mwy gyda golwg ar wella perfformiad, cynyddu trosiant
9	Rhaglen hyfforddi ar gyfer mentrau cymdeithasol cydweithredol
10	Ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a chaffael a chwmnïau cydweithredol.

Fe wnaethom adolygu 11 o adroddiadau cynnydd chwarterol a baratowyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru am y cyfnod rhwng Ebrill 2008 a Mehefin 2010. Mae'r adroddiadau chwarterol wedi eu cyflwyno yn broffesiynol ac yn

rhoi manylion am y gymysgedd briodol o weithgaredd datblygu strategol a hyfforddiant ar draws y deg amcan i'r cytundeb cyllid craidd. Fodd bynnag, roedd dau o'r adroddiadau chwarterol y gwnaethom eu hadolygu (y rhai ar gyfer Hydref - Rhagfyr 2008 ac Ebrill - Mehefin 2009) yn cynnwys ychydig iawn o wybodaeth am gynnydd o'u cymharu â'r naw arall.

Mae'r gweithgareddau nodweddiadol a wneir gan Ganolfan Cydweithredol Cymru gyda'r cyllid craidd yn cynnwys (nid yw wedi ei bwriadu i fod yn rhestr holl gynhwysol):

Prif Weithredwr y Ganolfan ac aelodau o Uwch Dîm Rheoli'r Ganolfan yn gweithio gyda'r Llywodraeth a rhanddeiliaid eraill i ddarparu gwybodaeth a mewnbwn/arbenigedd uniongyrchol i ddatblygu polisi, strategaeth a rhaglenni (e.e. mewnbwn i'r Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol, Cynllun Cynhwysiant Digidol, Rhaglen Adnewyddu'r Economi, tystiolaeth ysgrifenedig i amrywiol Bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol, cyfrannu at Astudiaeth Fapio Mentrau Cymdeithasol a rhoi mewnbwn i gyfnod cynllunio'r Gronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol);

Cynrychioli'r sector mentrau cymdeithasol (trwy Brif Weithredwr y Ganolfan) ar nifer o gyrff strategol allweddol (e.e. Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, Grŵp Ymgynghorol Gweinidogol ar Fentrau Cymdeithasol, Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan, Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru);

Rhoi tystiolaeth lafar i amrywiol Bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol ar ran y sector mentrau cymdeithasol;

Prif Weithredwr ac aelodau'r Uwch Dîm Rheoli yn mynychu cyfarfodydd gyda'r Prif Weinidog, Gweinidogion y Cabinet ac uwch swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar draws adrannau amrywiol⁵⁵ i drafod materion penodol (e.e. Gwasanaeth Rheoli Troseddwr Cenedlaethol,

⁵⁵ Fe wnaethom sylwi ar gyfeiriadau at gyfarfodydd gyda Gweinidogion a Swyddogion o'r Adran Cyfiawnder Troseddol a Llywodraeth Leol, Materion Gwledig, Economi a Thrafnidiaeth a Phlant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

Cau Swyddfeydd Post, Addysg Bellach) pan ofynnir am fewnbwn penodol ar fentrau cymdeithasol;
Gwneud trefniadau i Weinidogion ymweld â chwmnïau cydweithredol;
Cynhyrchu amrywiol adroddiadau ymchwil a phapurau polisi, astudiaethau achos arfer da a llyfrynnau;
Cynnal presenoldeb ar y we ar gyfer y ganolfan ei hun a hefyd y wefan cartrefi cymunedol cydfuddiannol;
Trefnu seminarau ar bynciau penodol (e.e. ar fentrau cymdeithasol yng nghyd-destun tai);
Trefnu a chynnal cynhadledd gydweithredol bod yn ail flwyddyn a chefnogi Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal cynhadledd Mentrau Cymdeithasol Llais 10 yng Nghaerdydd yn ystod 2010;
Cynnal gwaith parhaus gyda'r wasg a'r cyfryngau gan gynnwys cyfweiliadau cyson (fel arfer gan y Prif Weithredwr) a noddi atodiadau papurau newydd i godi ymwybyddiaeth;
Cyflwyno digwyddiadau hyfforddi, gweithdai, seminarau a dosbarthiadau meistr i fentrau cymdeithasol⁵⁶.

Ar ddechrau 2010, newidiwyd ffurf yr adroddiadau cynnydd chwarterol a baratoir gan Ganolfan Cydweithredol Cymru. Trafodwyd y newidiadau gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a gytunodd arnynt. Roedd y newidiadau i strwythur yr adroddiad chwarterol yn golygu ychydig o newidiadau o ran drafftio i chwech o'u hamcanion (Amcanion 2, 3, 4, 5, 7 ac 8) a thynnu tri amcan (Amcan 6, 9 a 10). Arhosodd yr amcan cyntaf yn ddigyfnewid.

Roedd rhai newidiadau hefyd i'r dangosyddion perfformiad allweddol a restrir, gyda thargedau newydd yn ymwneud â nifer o gyfarfodydd (chwech i gyd) i ddatblygu gwaith yn y sectorau deunydd adnewyddadwy ac ailgylchu (tri chyfarfod) a gyda Chwmnïau Tai Cydfuddiannol (tri chyfarfod) yn cael eu hychwanegu at Amcan 6. Symudwyd y dangosyddion perfformiad allweddol

⁵⁶ Mae pynciau'r hyfforddiant yn cynnwys er enghraifft Cynllunio Busnes i Fentrau Cymdeithasol, Datblygiad Trefniadol, Twf a Chynaliadwyedd i Fentrau Cymdeithasol a Sgiliau Rhyngpersonol fel Gofal Cwsmeriaid.

ar gyfer y rhaglen hyfforddi (a oedd dan Amcan 9) i Amcan 7 oedd yn ymwneud â chefnogi cwmnïau cydweithredol mwy.

Roedd y newid hefyd yn golygu symud oddi wrth adroddiadau chwarterol oedd yn defnyddio ffurf tabl y ddogfen Atodlen 1 wreiddiol ar gyfer rhoi adroddiad at ddull mwy naratif (heb fod yn dabl). Yn ein barn ni roedd y newidiadau i ffurf yr adroddiadau yn rhesymegol ac maent wedi gwneud yr adroddiadau chwarterol yn haws eu deall a'u dadansoddi.

O'n hadolygiad ni o adroddiadau chwarterol Canolfan Cydweithredol Cymru mae'n amlwg bod y Ganolfan yn cyflawni llawer iawn o waith sy'n gyson â'r rhan fwyaf o'r nodau a'r dangosyddion perfformiad yn eu cytundeb cyllid craidd. Mae'n amlwg hefyd y bydd y Ganolfan wedi cyflawni ei thargedau allbwn ac yn y rhan fwyaf o achosion wedi mynd ymhell tu hwnt iddynt o ran mynd i gyfarfodydd a rhwydweithiau a chyfrannu atynt, cynhyrchu papurau/deunyddiau polisi, astudiaethau achos, sylw ar y cyfryngau, trefnu digwyddiadau ac archwilio cyfleoedd/cysyniadau newydd pan fydd mentrau cymdeithasol yn cael eu gweld fel ffordd bosibl i symud ymlaen. Ar ben hynny, mae'n amlwg wrth adolygu'r adroddiadau chwarterol bod y Ganolfan wedi darparu swm sylweddol o gyngor ad hoc, gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r economi gymdeithasol ehangach i Lywodraeth Cynulliad Cymru a rhanddeiliaid eraill (fel awdurdodau lleol, cyrff ymbarél fel CGGC a Chronfa'r Loteri Fawr).

Yr unig le mae bwlch ymddangosiadol rhwng y gweithgareddau a gofnodir â'r amcanion gwreiddiol yw yng nghyswllt Amcanion 8 a 9 nad ydynt wedi cael eu symud ymlaen i'r un graddau â'r amcanion eraill. Nid yw Amcan 8 yn arbennig (datblygu cwmnïau cydweithredol mwy) wedi cael ei gyflawni fel y cynlluniwyd yn wreiddiol yn nogfen Atodlen 1, gan fod Canolfan Cydweithredol Cymru yn teimlo bod yr elfen hon o'r gwaith yn cael ei wneud gan y Prosiect Cefnogi Mentrau Cymdeithasol sy'n cael ei ariannu gan Ewrop. Er bod Amcan 8 wedi cael ei gadw yn y ffurf newydd o roi adroddiad chwarterol (Amcan 7 yn awr yn y ffurf newydd ar yr adroddiad a gyflwynwyd ar ddechrau 2010) nid yw'r dangosydd perfformiad allweddol o gwblhau chwe

adolygiad (o gwmnïau cydweithredol) wedi cael ei gyflawni. Mae'r dangosydd perfformiad allweddol arall dan yr amcan hwn yn ymwneud â chyflawni hyfforddiant i 120 o hyfforddeion ac mae'r Ganolfan Cydweithredol wedi nodi eu bod wedi cwblhau 238 o leoliadau hyfforddiant ym Mehefin 2010. Efallai bod addasrwydd cynnwys targedau gweithgaredd hyfforddi dan yr amcan yn ymwneud â chefnogi cwmnïau cydweithredol mwy yn amheus gan nad yw'r hyfforddiant a ddarparwyd wedi bod ar gyfer unigolion sy'n ymwneud â chwmnïau cydweithredol mawr yn unig.

Er ei bod yn glir wrth adolygu'r adroddiadau chwarterol bod Canolfan Cydweithredol Cymru wedi cynnal cyfarfodydd a thrafodaethau gyda chyreff allweddol am rôl mentrau cymdeithasol o ran darparu gwasanaethau sector cyhoeddus, mae'n syndod, efallai, bod hyn wedi ei dynnu allan o blith yr amcanion yn y strwythur adrodd chwarterol newydd. O ystyried y pwyslais a roddir ar fentrau cymdeithasol mewn dogfennau polisi diweddar (e.e. Rhaglen Adnewyddu'r Economi a'r Gymdeithas Fawr) fel dull o gynnig atebion posibl i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus yn effeithlon, fe fyddem wedi disgwyl i'r amcan hwn gael ei gadw fel llinyn pwysig o'r gwaith. Tanlinellwyd hyn hefyd gan o leiaf ddau o'r rhanddeiliaid y gwnaethom eu cyfweld fel agwedd allweddol yr oeddent yn disgwyl i'r Ganolfan wneud cyfraniad pwysig arni yn y dyfodol agos iawn.

3.4 Cyfraniad at ddatblygu'r sector economi gymdeithasol yng Nghymru

Yn yr adran hon rydym yn dadansoddi'r cyfraniad y mae gweithgaredd a dderbyniodd gyllid craidd a gyflawnwyd gan bob un o'r tri chorff wedi ei wneud at y sector mentrau cymdeithasol yng Nghymru. Mae ein dadansoddiad yn tynnu ar ganfyddiadau arolwg ar y ffôn o 47 o fentrau cymdeithasol a gynhaliwyd yn ystod Hydref a dechrau Tachwedd 2010.

Ar gyfer CYD Cymru a Social Firms Wales, fe wnaethom arolygu mentrau cymdeithasol oedd wedi derbyn cefnogaeth oedd wedi ei chysylltu'n uniongyrchol iawn â chyllid craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru (oherwydd ei bod wedi ei darparu gan staff a dalwyd yn gyfan gwbl neu yn rhannol gan y cyllid craidd).

Yn achos Canolfan Cydweithredol Cymru, fe wnaethom gytuno ar agwedd oedd rywfaint yn wahanol yn y dechrau. Fel yr esboniwyd yn barod, nid yw'r cyllid craidd a ddarperir i'r Ganolfan yn talu am staff sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau uniongyrchol i fentrau cymdeithasol: yn hytrach, mae'r gefnogaeth uniongyrchol hon yn cael ei hariannu trwy'r Prosiect Cefnogi Mentrau Cymdeithasol a ariennir gan yr ERDF.

Fodd bynnag, gan fod y cyllid craidd a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn allweddol i alluogi'r Ganolfan i ddatblygu a sicrhau contract y Prosiect Cefnogi Mentrau Cymdeithasol, penderfynwyd y gellid defnyddio sampl o'r mentrau cymdeithasol a gefnogwyd gan y prosiect hwn fel ffordd ddilys o fesur cyfraniad y Ganolfan (a thrwy hynny, yn anuniongyrchol, gyfraniad y cyllid craidd) at ddatblygu'r economi gymdeithasol yng Nghymru.

3.4.1 Proffil o'r Mentrau Cymdeithasol a Gefnogwyd

Cyn troi i archwilio cyfraniad y gefnogaeth at ddatblygu mentrau cymdeithasol, yn gyntaf rydym yn rhoi golwg gryno ar y mentrau cymdeithasol a gymerodd ran yn ein harolwg.

Roedd ein sampl o 47 menter gymdeithasol yn cynnwys 21 oedd wedi derbyn cefnogaeth gan Gymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, 20 oedd wedi derbyn cefnogaeth gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a chwech oedd wedi derbyn cefnogaeth gan Social Firms Wales. Er bod y sampl yn cynrychioli cyfran resymol o'r mentrau cymdeithasol y mae pob sefydliad yn eu cefnogi⁵⁷, dylid defnyddio gofal dyledus wrth ddehongli'r canfyddiadau sy'n dilyn gan fod maint y sampl yn fychan iawn.

Rhai o brif nodweddion y mentrau cymdeithasol yn ein sampl o 47 oedd:

Eu bod wedi eu gwasgaru ar draws 19 o ardaloedd awdurdodau lleol Cymru. Nid oedd mwy na phump o ymatebwyr yn unrhyw ardal awdurdod lleol;

Roeddent yn fwyaf tebygol o fod wedi bod yn ymwneud â darparu cyfleoedd gwaith (traean o'r sampl sef 16 menter). Dilynir hyn gan fentrau oedd yn ymwneud â darparu hyfforddiant a gwasanaethau addysg, chwaraeon a gwasanaethau hamdden a gwasanaethau amgylcheddol;

Roedd ychydig dros draean (16 o'r 47) yn gwmnïau cymharol newydd, wedi eu sefydlu yn y ddwy flynedd ddiwethaf tra roedd y rhan fwyaf (29) o'r ddau draean arall wedi cael eu sefydlu ers 2007 neu cyn hynny. O'r rhain roedd 11 wedi hen sefydlu, gan eu bod wedi bod mewn bodolaeth ers 1998 neu cyn hynny. Roedd dwy fenter yn dal yn

⁵⁷ Rhoddwyd manylion cyswllt ar gyfer 10 cwmni cymdeithasol a gefnogwyd gan Social Firms Wales (mae ein sampl yn cynrychioli 60% o hyn). Rhoddwyd 48 cyswllt ar gyfer mentrau cymdeithasol a gefnogwyd gan CYD Cymru i ni (mae ein sampl yn cynrychioli 44% o hyn). Rhoddwyd rhestr o 109 o fentrau a gefnogir i ni gan Ganolfan Cydweithredol Cymru (mae ein sampl yn cynrychioli 18% o hyn). Roedd y gyfradd ymateb i'r arolwg dros y ffôn yn is ar gyfer Canolfan Cydweithredol Cymru gan nad oedd unrhyw unigolion yn cael eu henwi ar y rhestr yn y gronfa ddata o gysylltiadau.

y cyfnod datblygu cynnar ac nid oeddynt wedi cael eu sefydlu nac wedi creu trosiant ar adeg ein harolwg.

Roedd y mentrau cymdeithasol a gefnogwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a Social Firms Wales yn dueddol o fod yn iau (gyda naw o'r 20 menter a gefnogwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a phedair o'r chwech a gefnogwyd gan Social Firms Wales wedi eu sefydlu o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf) tra roedd y rhai a gefnogwyd gan CYD yn debygol o fod yn fwy aeddfed (gyda bron dwy ran o dair ohonynt neu 13 o 21 cleient CYD wedi cael eu sefydlu yn 2001 neu cyn hynny).

3.4.2 Cyflogaeth

O ran cyflogaeth, darparwyd gwybodaeth i ni gan 38 o'r 47 o fentrau cymdeithasol oedd yn cymryd rhan (Ffigur 6). Roedd cyfanswm o 602 o weithwyr yn cael eu cyflogi gan y 47 menter yn ein sampl gyda bron ddwy ran o dair o'r rhain yn swyddi yn cyfateb i swydd lawn-amser. Ar gyfartaledd, roedd y mentrau a arolygwyd yn cyflogi 16 o weithwyr yr un. Mentrau cymdeithasol oedd yn cael eu cefnogi gan CYD oedd yn cyflogi'r nifer fwyaf o bobl (gyda 26 o weithwyr yr un ar gyfartaledd).

Ffigur 6: Manylion y gweithwyr yn y mentrau cymdeithasol a arolygwyd

	Cyfanswm	LIA	RhA	RhA tymhorol
Cyfan (Sail=38)	602	378	196	28
SFW (Sail=5)	59	27	32	0
Canolfan (Sail=16)	96	68	19	9
CYD (Sail=17)	447	283	145	19

3.4.3 Trosiant

O'r 47 menter gymdeithasol a gyfwelwyd nid oedd pumed ran (deg) yn cynhyrchu unrhyw drosiant. Roedd y sefydliadau oedd yn weddill yn amrywio yn sylweddol o ran maint eu trosiant. Roedd gan 11 drosiant o dan £50,000, 16 â throsiant rhwng £50,000 a £1 miliwn a chwech â throsiant o fwy na £1 miliwn. Roedd pob un o'r rhai a gofnododd drosiant o fwy na £1 miliwn yn

gleientiaid CYD. Roedd llond llaw o fentrau cymdeithasol (pedair i gyd) yn methu dweud wrthym beth oedd eu trosiant.

O ran ffynonellau incwm, gweithgaredd masnachu oedd y ffynhonnell incwm fwyaf i'r mentrau a arolygwyd (ar 39%) ac roedd hyn yn cynyddu i 43% ar gyfer mentrau oedd yn cael eu cefnogi gan Ganolfan Cydweithredol Cymru (gweler Ffigur 7). Incwm trwy gyllid grant oedd yr ail ffynhonnell incwm fwyaf sylweddol ar gyfer y mentrau a arolygwyd (ar 31%) a'r ffynhonnell hon oedd fwyaf sylweddol i fentrau oedd yn cael eu cefnogi gan CYD Cymru (ar 40%).

Roedd contractau sector cyhoeddus a Chytundebau Lefel Gwasanaeth yn ffynonellau incwm llai sylweddol i'r mentrau a arolygwyd er bod contractau sector cyhoeddus ychydig yn bwysicach i fentrau a gefnogwyd gan Social Firms Wales.

Dangosodd llond llaw o fentrau ffynonellau incwm eraill (8%) yn ein sampl, ac yn y rhan fwyaf o achosion cyfraniadau neu nawdd gan fusnesau sector preifat neu'r cyhoedd oedd y rhain.

Ffigur 7: Ffynonellau Incwm y Mentrau a Arolygwyd

	Grantiau	Cyt. Lefel Gwas.	Tendrau Sector Cyhoeddus	Masnachu	Arall
Cyfan (Sail =37)	31%	8%	13%	39%	8%
SFW (Sail=4)	23%	0%	25%	38%	15%
Canolfan (Sail=14)	23%	6%	12%	43%	17%
CYD (Sail=19)	40%	10%	12%	38%	1%

3.4.4 Marchnadoedd a Wasanaethir

Fe wnaethom holi'r mentrau cymdeithasol am y math o farchnadoedd y maent yn eu gwasanaethu. Ymatebodd 42 menter gymdeithasol i'r cwestiwn hwn. Yn Ffigur 8 isod gwelir dosbarthiad y refeniw ar gyfartaledd yng nghyswllt chwe marchnad ofodol. Dengys hyn ar gyfartaledd bod 38% o refeniw gwerthiant masnachol yn cael ei gynhyrchu o werthiannau yn y trefi neu bentrefi lleol.

Ar gyfartaledd, ychydig dros chwarter (28%) o'r gwerthiannau masnachol sy'n cael eu cynhyrchu ar draws ardal yr awdurdod lleol tra bod cyfartaledd o 21% o'r gwerthiant yn cael ei greu o bob rhan o'r rhanbarth (y rhanbarth wedi ei ddiffinio fel De Orllewin, De Ddwyrain, Canolbarth, Gogledd Orllewin a Gogledd Ddwyrain). Ar gyfartaledd, ychydig iawn o'r refeniw masnachol a gynhyrchir o werthiannau a ddaeth o farchnadoedd ar gyfer Cymru gyfan (8%) na'r Deyrnas Unedig (5%). Cleientiaid Canolfan Cydweithredol Cymru oedd fwyaf tebygol o greu cyfran uwch ar gyfartaledd o'u refeniw gwerthiannau masnachol o bob rhan o Gymru neu farchnadoedd y Deyrnas Unedig tra roedd cleientiaid CYD Cymru yn fwyaf tebygol o greu'r gyfran uchaf o'u refeniw gwerthiannau masnachol o'r marchnadoedd lleol (cyfartaledd ar y cyd o 88% o dref/pentref ac ardal awdurdod lleol).

Ffigwr 8: Dosbarthiad refeniw gwerthiannau masnachol ar draws ardaloedd marchnad gofodol

	Tref/Pentref Lleol	ALI	Rhanbarth	Cymru	Y Deyrnas Unedig	Ewrop
Cyfan (Sail=42)	38%	28%	21%	8%	5%	0%
SFW (Sail=4)	25%	13%	58%	5%	0%	0%
Canolfan (Sail=18)	36%	17%	23%	13%	10%	1%
CYD Cymru(Sail=20)	44%	40%	12%	4%	1%	0%

Ar yr wyneb mae'r dadansoddiad hwn yn awgrymu, o ystyried natur leol iawn y marchnadoedd a wasanaethir, y gall fod perygl y bydd dadleoliad yn digwydd. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd hyn yn cael ei wrthweithio gan y ffaith bod cyfran sylweddol o'r mentrau cymdeithasol yma (gweler para. 3.4.1, pwynt bwled dau uchod) yn ymwneud â gweithgareddau (fel cynnig cyfleoedd gwaith, gwasanaethau hyfforddiant ac addysg) lle, gellid dadlau, nad oes presenoldeb cryf iawn o'r sector preifat yn lleol.

3.4.5 Cefnogaeth a ddarparwyd gan y tri sefydliad


Y math mwyaf cyffredin o gefnogaeth oedd ar gael gan y tri chorff oedd help i gynllunio busnes (nodwyd gan 27 o'r ymatebwyr neu 57% o'r sampl a arolygwyd), ac yna help i gychwyn y fenter (20 ymatebwr neu 43% o'r sampl a

arolygwyd) a help gyda materion rheoli a marchnata (nodwyd gan ryw 40% o'r sampl a arolygwyd). O ran cychwyn o'r newydd, dywedodd 11 o'r 20 menter gymdeithasol (55%) a gefnogwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru eu bod wedi derbyn help i gychwyn. Dywedodd pedair o'r chwech (67%) menter a gefnogwyd gan Social Firms Wales eu bod wedi cael help i gychwyn tra bod pump o'r 21 (24%) o fentrau a gefnogwyd gan CYD Cymru yn dweud eu bod wedi cael help i gychwyn.

Mae rhai gwahaniaethau trawiadol rhwng y gefnogaeth oedd ar gael gan y tri darparwr ac yn arbennig roedd cleientiaid Social Firms Wales yn fwy tebygol o gael cyngor ar amcanion cymdeithasol a dod o hyd i incwm grant tra bod cleientiaid CYD Cymru yn llai tebygol o dderbyn cefnogaeth ar reolaeth a materion yn ymwneud â marchnata.

Ymhlith y mathau eraill o gefnogaeth y soniwyd amdanynt gan y mentrau a arolygwyd roedd cefnogaeth i gynnal astudiaeth dichonolrwydd, cefnogaeth mentora, cefnogaeth TGCh a chefnogaeth i rwydweithio.

Ffigwr 9: Cefnogaeth a Dderbyniwyd gan Fentrau Cymdeithasol



3.4.6 Priodoli a'r gwahaniaeth a wnaed

Dyweddod y 47 menter gymdeithasol a gymerodd ran yn ein harolwg bod y gefnogaeth a dderbyniwyd ganddynt wedi gwneud y gwahaniaeth mwyaf yn y meysydd allweddol canlynol:

Eu helpu i ddeall nodau eu menter yn gliriach (mewn 70% neu 33 o achosion). Roedd y rhai a gefnogwyd gan CYD Cymru a Social Firms Wales yn fwy tebygol o ddweud bod hyn yn wir;

Eu cynorthwyo i ddod yn fwy hyfyw yn fasnachol (mewn 57% neu 27 achos). Roedd 6% (tair menter) o'r rhai a arolygwyd yn anghytuno bod y gefnogaeth wedi eu helpu i ddod yn fwy hyfyw yn fasnachol ac roedd 13% (chwe menter) heb benderfynu. Nid oedd y 23% (11 menter) oedd yn weddill wedi ymateb neu nid oeddynt yn gwybod;

Eu helpu i wella'r ffordd y maent yn gwasanaethu eu cymuned (mewn 55% o achosion);

Eu cefnogi i ddynodi a gweithio gyda grwpiau neu sefydliadau eraill i ddatblygu cyfleoedd masnachu newydd (mewn 55% neu 26 achos).

Mae'r canfyddiadau yma yn awgrymu bod y tri chorff yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r ffordd y mae mentrau cymdeithasol yn rhedeg eu gweithrediadau ac yn arbennig eu hagwedd fasnachol. Mae'n awgrymu hefyd bod y gefnogaeth wedi helpu mentrau cymdeithasol ar gyfnodau allweddol (e.e. wrth eu sefydlu ac wrth iddynt dyfu) i ddynodi nodau masnachol, asesu eu hyfywedd masnachol ac i dargedu cyfleoedd newydd posibl yn y farchnad.

Dyweddod y rhai a ymatebodd i'n harolwg hefyd bod y gefnogaeth yr oeddent wedi ei derbyn wedi gwneud gwahaniaethau cadarnhaol, ond llai sylweddol yn y meysydd allweddol canlynol:

Ehangu eu cwsmeriaid (mewn 40% neu 19 achos). Roedd cleientiaid CYD Cymru yn llai tebygol na'r rhai a gefnogwyd gan y ddau gorff arall i nodi bod hyn yn wir;

Dod yn llai dibynnol ar grantiau (mewn 40% neu 19 achos) er bod 23% (11 menter) yn anghytuno bod y gefnogaeth wedi eu helpu i ddod yn

llai dibynnol ar grantiau – a bod y rhai oedd yn anghytuno yn fwy tebygol o fod yn gleientiaid CYD Cymru a'r Ganolfan Cydweithredol; Ehangu'r ystod o gynnyrch neu wasanaethau (mewn 38% neu 18 achos). Roedd cleientiaid CYD Cymru eto ychydig yn llai tebygol o nodi bod hyn yn wir ac yn fwy amhendant neu'n fwy tueddol o anghytuno â'r datganiad hwn;

Dod yn fwy ymwybodol o faterion cynaliadwyedd amgylcheddol (mewn 34% neu 16 achos);

Dod yn fwy parod ar gyfer buddsoddiad (mewn 34% neu 16 achos);

Cynyddu'r nifer o bobl y maent yn eu cyflogi (mewn 32% neu 15 achos);

Gwella'r ffordd y maent yn rheoli staff a gwirfoddolwyr (mewn 32% neu 15 achos) – er bod cyfran sylweddol (19 menter neu 40%) heb benderfynu ar y mater hwn;

Cynyddu'r nifer o wirfoddolwyr (mewn 23% neu 11 achos);

Sicrhau mwy o gontractau darparu sector cyhoeddus (mewn 17% neu 8 achos). Roedd rhyw 23% (11 menter) yn anghytuno bod y gefnogaeth wedi eu helpu i sicrhau mwy o gontractau darparu sector cyhoeddus a 32% heb benderfynu (15 menter). Roedd 13 menter arall (28%) ddim yn gwybod.

Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu, yn ogystal â chael effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth fasnachol, bod mentrau cymdeithasol yn teimlo eu bod yn medru priodoli rhai enillion positif o ran ehangu nifer eu cwsmeriaid a llai o ddibyniaeth ar grant i'r gefnogaeth a gawsant.

Yn ychwanegol, roedd ychydig dros chwarter y rhai wnaeth ymateb i'n harolwg yn teimlo eu bod yn medru priodoli cynnydd mewn incwm neu drosiant (mewn 28% neu 13 achos) i'r gefnogaeth yr oeddynt wedi ei derbyn. Yn groes i hynny, roedd 21% (10 menter) yn anghytuno bod y gefnogaeth wedi eu helpu i gynyddu eu hincwm na'u trosiant a 30% arall (14 menter) heb benderfynu (ni wnaeth y 10 menter arall neu 21% ymateb i'r cwestiwn hwn). Roedd cleientiaid CYD Cymru yn fwy tebygol nag eraill o ddweud nad oedd y gefnogaeth wedi eu helpu i gynyddu eu hincwm neu drosiant, sy'n

adlewyrchu, efallai'r, ffaith bod CYD Cymru yn ymddangos fel pe baent wedi bod yn rhoi cefnogaeth barhaus i fentrau cymdeithasol sydd wedi sefydlu yn barod neu sy'n fwy.

Er bod rhaid cydnabod bod mentrau cymdeithasol oedd yn ymateb i'n harolwg yn ei chael hi'n anodd priodoli effaith cefnogaeth ar drosiant, mae'n gadarnhaol bod 13 o'r mentrau cymdeithasol a ymatebodd wedi cysylltu'r gefnogaeth â chynnydd yn eu trosiant.

Er bod gwahaniaeth amlwg rhwng y 57% a ddywedodd eu bod yn teimlo eu bod yn fwy hyfyw yn fasnachol a'r 28% a ddywedodd bod eu trosiant wedi cynyddu o ganlyniad i'r gefnogaeth, mae hyn, fodd bynnag yn ganlyniad positif. Efallai ei fod yn awgrymu hefyd bod hyfywedd masnachol wedi cael ei wella trwy gyfrwng heblaw twf, trwy well rheolaeth neu enillion trwy effeithlonrwydd er enghraifft.

Fe wnaeth y canfyddiadau a gafwyd trwy ymweld â 12 o'r mentrau cymdeithasol yma hefyd dynnu sylw clir at yr her sylweddol y mae effeithiau'r dirwasgiad a chyfyngiadau gwariant y sector cyhoeddus yn eu creu, yn arbennig o ran cynnal y lefel bresennol o incwm/trosiant heb sôn am ei gynyddu.

Mae'n ddi-ddorol nodi, o'r 13 menter gymdeithasol sydd yn ein harolwg a ddywedodd bod y gefnogaeth a gawsant wedi cyfrannu at y twf mewn incwm/trosiant, dywedodd 12 o'r rhain eu bod hefyd wedi cynyddu'r nifer o bobl y maent yn eu cyflogi. Mae hyn yn awgrymu bod cysylltiad cryf iawn rhwng twf mewn trosiant a chyflogaeth. Mae'n gadarnhaol hefyd bod 40% o'r mentrau cymdeithasol a wnaeth ymateb wedi priodoli lleihad yn eu dibyniaeth ar grant i'r gefnogaeth yr oeddent wedi ei derbyn.

Roedd tystiolaeth o briodoli o'r mentrau cymdeithasol y buom yn cynnal ymweliad dilynol â nhw yn gymysg, ond yn bositif i raddau helaeth. Dywedodd un fenter gymdeithasol a gefnogwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru eu bod yn priodoli gwelliannau mewn prosesau busnes a rheolaeth yn

uniongyrchol i'r gefnogaeth a gawsant. Fodd bynnag, er nad oedd hyn eto wedi troi yn gynnydd mewn trosiant (yr oedd y fenter hon yn ei briodoli i raddau helaeth i'r amodau macro-economaidd), teimlent, o ganlyniad i gefnogaeth y Ganolfan eu bod *“ar y ffordd i ddod yn fenter fwy hyfyw a chynaliadwy”*.

Dyweddodd un arall o'r rhai a gefnogwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru eu bod wedi cyflwyno strategaeth brisio fwy ffurfiol o ganlyniad i'r cyngor a'r gefnogaeth a gawsant. Roeddynt yn priodoli'r cynnydd yn eu hincwm masnachu (i fyny o ddim i 10% o'r trosiant) yn uniongyrchol o ganlyniad i hyn. Mewn cyferbyniad, roedd y fenter hon hefyd wedi dioddef oherwydd colli incwm grant (oherwydd y toriadau) ac wedi cael eu gorfodi i ddiswyddo staff o ganlyniad. Er bod y fenter yn glir nad oedd gan hyn ddim i'w wneud â chefnogaeth gan y Ganolfan Cydweithredol, mae yn dangos bod enillion positif sy'n cael eu creu trwy gefnogaeth yn cael eu dileu gan effeithiau macro-economaidd negyddol.

Dyweddodd trydedd fenter gymdeithasol (yn cyflogi un aelod o staff) na fyddai'r fenter ei hun wedi cael ei sefydlu oni bai am gefnogaeth y Ganolfan.

Dyweddodd un ymddiriedolaeth ddatblygu a welsom oedd wedi cynyddu ei throsiant o 30% yn y flwyddyn ddiwethaf i bron i £1.5m, er bod yr help a gawsant gan CYD Cymru a'r Ganolfan Cydweithredol wedi bod o help mawr, nad oeddynt yn priodoli'r cynnydd mewn trosiant yn uniongyrchol i'r gefnogaeth a gafwyd. Yn hytrach, roedd y sefydliad arbennig hwn yn priodoli ei lwyddiant i ffactorau yn y farchnad (gan gynnwys cynnydd yn y galw am wasanaethau), parodrwydd i gymryd risg (e.e. wrth godi cyllid trwy ffynonellau masnachol) a chodwr arian entrepreneuriaidd iawn ar eu tîm. Yn yr ystyr hwn, roedd y fenter yn gweld y gefnogaeth yr oeddent wedi ei derbyn gan CYD Cymru (yn bennaf trwy gysylltu ag ymddiriedolaethau datblygu eraill fel rhan o'r rhwydwaith yng Nghymru) fel grym oedd wedi eu galluogi yn hytrach na'u gyrru. Gellid dadlau wrth gwrs bod hwn yn ganlyniad cadarnhaol yn yr ystyr bod y corff a gefnogwyd yn teimlo ar un llaw eu bod wedi cael budd o

gefnogaeth gan gymheiriaid heb fod yn or-ddibynnol ar CYD fel corff sy'n darparu ar y llaw arall.

Dyweddodd ail fenter gymdeithasol a gefnogwyd gan CYD Cymru wrthym eu bod wedi creu rhyw £6.1m o drosiant dros gyfnod o saith blynedd rhwng 2003 a 2010. Roedd ychydig dros 20% o'r incwm hwn dros y cyfnod o saith blynedd wedi dod trwy weithgaredd masnachu (yn bennaf o gyrsiau hyfforddi a werthwyd i'r cyhoedd a'r trydydd sector a'r incwm a gynhyrchwyd o logi ystafelloedd). Teimlai'r sefydliad hwn, er nad oeddynt yn medru mesur faint o incwm masnachu ychwanegol y gallent ei briodoli i'r gefnogaeth a gawsant *“maent [CYD Cymru] yn sicr wedi dylanwadu ar hynny. Maent wedi bod yn ffynhonnell gwybodaeth ac maent wedi bod yn help gwirioneddol i'n ffordd o feddwl”*.

Dyweddodd un sefydliad a gefnogwyd gan Social Firms Wales eu bod wedi dod i weld yn gliriach *“eu nodau cymdeithasol a busnes”* a hefyd eu bod yn teimlo eu bod yn medru priodoli rhywfaint o'r twf mewn trosiant, lleihad yn y ddibyniaeth ar grantiau a chynnydd yn nifer y staff i'r gefnogaeth a gawsant. Fodd bynnag nid oeddynt yn teimlo y gallent fesur hyn.

Roedd corff arall a gefnogwyd gan Social Firms Wales yn priodoli ei fodolaeth yn llawn (â throsiant o dros £40k y flwyddyn yn awr) i'r gefnogaeth a dderbyniwyd. Roedd y fenter benodol hon wedi cael ei sefydlu gyda'r bwriad penodol o allanoli gwasanaeth oedd yn cael ei ddarparu gan awdurdod lleol cyn hynny.

“Fydden ni ddim wedi meddwl am hyn fel dewis heb y gefnogaeth a gawsom gan Social Firms Wales. Mae'n debyg y byddai wedi cael ei is-gontractio i elusen”.

3.4.7 Ffuriau eraill o gefnogaeth

Roedd ychydig dan hanner y mentrau cymdeithasol yn ein sampl (21 sefydliad) hefyd wedi derbyn cefnogaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r

un nifer (21 o sefydliadau) wedi cael cefnogaeth gan eu Hawdurdod Lleol. Roedd cyfran ychydig yn llai (26% neu 12 corff) wedi derbyn cefnogaeth gan eu Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Sirol a dim ond pum menter neu lai oedd wedi derbyn cefnogaeth gan unrhyw sefydliad arall a nodwyd (Cyllid Cymru, Darparwr Cefnogaeth Busnes, neu Fanciau). Roedd ein hymweliadau dilynol â mentrau cymdeithasol yn awgrymu, mewn llond dwrn o achosion (dim mwy na thri neu bedwar), eu bod wedi cael eu cyfeirio at gefnogaeth gan un o'r tri chorff sy'n destun i'r adolygiad hwn.

Roedd natur y gefnogaeth a gafwyd gan y ffynonellau cefnogaeth eraill yma yn cynnwys:

Llywodraeth Cynulliad Cymru – Cyllid gan gynnwys grantiau a chefnogaeth Cymunedau yn Gyntaf;

Awdurdod Lleol – amrywiaeth eang o gefnogaeth gan gynnwys cyllid (grantiau a defnyddio cyfleusterau/adeiladau am ddim), cefnogaeth gyda materion cynllunio ac adfywio, cefnogaeth wrth ddatblygu prosiectau a helpu i godi proffil eu menter;

Cynghorau Gwirfoddol Cymunedol – amrywiaeth eang o gefnogaeth gan gynnwys grantiau, cyngor cyffredinol a chefnogaeth, cyngor cyfreithiol, cefnogaeth gyda pholisïau a darparu hyfforddiant;

Cyllid Cymru – benthyciadau a chyngor;

Darparwyr Cefnogaeth Busnes – help gyda hyfforddiant, marchnata a rhwydweithio;

Banciau – cydweithredu gyda banciau penodol oedd yn cynnwys cyfrannu fel aelod o'r Bwrdd.

Roedd dros draean y mentrau cymdeithasol (39% neu 12 o'r 31 menter oedd wedi defnyddio cefnogaeth o ffynhonnell arall) yn ystyried y gefnogaeth a gawsant gan eu darparwr (h.y. CYD Cymru, SFW neu Ganolfan Cydweithredol Cymru) yn fwy defnyddiol na'r gefnogaeth a gawsant o ffynonellau eraill.

Mewn llawer o achosion roedd yr ymatebwyr yn dweud mai'r rheswm am hyn oedd gwybodaeth a phrofiad eang y staff oedd wedi rhoi cefnogaeth iddynt a'r ffaith eu bod wedi bod yn benodol iawn i'w anghenion. Credai 55% (17 menter) bod y gefnogaeth wedi bod yr un mor ddefnyddiol â ffynonellau eraill a dim ond 6% (dwy fenter) oedd yn meddwl bod y gefnogaeth a roddwyd yn llai defnyddiol na'r ffynonellau cefnogaeth eraill. Roedd hyn yn aml oherwydd nad oedd y gefnogaeth wedi bod yn ddigon penodol, roedd rhai elfennau o'r gefnogaeth yn cael eu dyblygu a'u bod wedi cael mwy o gyswllt â darparwr arall.

3.5 Ffynonellau Cyllid Eraill

Mae pob un o'r tri chorff sy'n destun yr adolygiad hwn wedi creu ffynonellau incwm sydd yn fwy a thu hwnt i'r cyllid craidd a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yn yr adran hon rydym yn amlinellu'r gyfran o gyllid craidd yng nghyswllt proffil incwm pob sefydliad ac yn archwilio i ba raddau y mae'r cyllid craidd wedi cael ei ddefnyddio i greu refeniw ychwanegol.

3.5.1 Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru

Mae'r tabl isod (Ffigwr 10 isod) yn rhoi proffil incwm wedi ei grynhai ar gyfer CYD Cymru ar gyfer y cyfnod cyllid craidd presennol. Mae'r tabl yn dangos bod CYD, fel corff cymharol fach wedi creu'r rhan fwyaf o'i gyllid trwy gytundeb cyllid craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Er nad yw cyfanswm yr incwm ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol (2010-11) yn glir eto, ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol, mae'r elfen cyllid craidd wedi bod yn 61% a 75% yn ei dro o gyfanswm incwm CYD Cymru.

Ffigwr 10: Proffil Incwm Cryno ar gyfer CYD Cymru.

	2008 – 09	2009 - 10	2010 - 11	CYF.
Cyfanswm Incwm	251,108	238,385	-	489,493
Cyllid Craidd Llywodraeth y Cynulliad ⁵⁸	153,400	179,258	172,713	505,371
Cyllid Craidd fel % o'r Incwm i Gyd	61%	75%	-	
Incwm arall a grëwyd	97,708	59,127	-	156,835

⁵⁸ Yn 2008-09, cofnododd CYD Cymru danwariant o £11,000 o'i gymharu â'i ddyraniad cyllid craidd. Trosglwyddwyd hyn ymlaen i 2009-10. Mae'r ffigyrau yn Ffigwr 3 uchod yn adlewyrchu'r newid hwn.

Daeth yr incwm ychwanegol a grëwyd gan CYD Cymru ar gyfer y ddwy flynedd ariannol gyntaf o'r cyfnod cyllid craidd presennol (£97,708 yn 2008-09 a £59,127 yn 2009-10) o:

Contract gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu cefnogaeth datblygu asedau⁵⁹. Roedd hyn yn cyfateb i £18,700 neu 7% o gyfanswm yr incwm yn 08/09;

Contract gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu cefnogaeth trwy'r Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf⁶⁰. Roedd hyn yn £32,360 neu 13% o gyfanswm yr incwm yn 08/09;

Gweithgaredd i gydlynu'r prosiect Regen School Wales gydag incwm yn cael ei dynnu ar gyfer y gwaith hwn o Ymddiriedolaeth Ddatblygu'r Meysydd Glo a Cylch. Roedd hyn yn gyfanswm o £26,303 neu 10% o'r incwm yn 08-09 a £51,979 neu 22% o'r incwm yn 09-10;

Taliadau aelodaeth. Roedd hyn yn cyfateb i £13,502 neu 5% o'r incwm yn 08-09 a £6,463 neu 3% o'r incwm yn 09-10;

Ar sail y dybiaeth bod yr incwm arall a grëwyd gan CYD Cymru yn bosibl yn unig oherwydd bod y cyllid craidd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ei le, mae'n bosibl casglu⁶¹ am bob £1 o arian craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae CYD Cymru wedi llwyddo i greu 64c arall o incwm yn 2008/09 a 33c o incwm yn ychwanegol yn 2009/10.

Mae'r dadansoddiad hwn yn awgrymu bod CYD Cymru felly yn ddibynnol iawn ar gyllid craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru ac y bydd unrhyw benderfyniad i dynnu arian craidd yn ansefydlogi'r sefydliad yn ddifrifol.

O ran y ffynonellau incwm eraill a grewyd, mae'n siomedig bod gostyngiad llym mewn taliadau aelodaeth wedi bod rhwng 2008-09 a 2009-10 gan i CYD

⁵⁹ Comisiwn penodol oedd hwn oedd yn ystyried canfyddiadau ac argymhellion Adolygiad Quirk a'u perthnasedd i Gymru. Un o argymhellion yr adroddiad oedd sefydlu Cronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol yng Nghymru.

⁶⁰ Ers hynny mae Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau'n Gyntaf wedi cael ei ddiddymu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

⁶¹ Cyfrifir y ffigwr hwn trwy rannu cyfanswm yr incwm arall a grewyd (h.y. net o o incwm cyllid craidd LICC) wrth swm y cyllid craidd am y flwyddyn benodol honno.

Cymru roi adroddiad bod cynnydd yn yr aelodaeth o 16 aelod newydd dros yr un cyfnod⁶². Roedd Prif Weithredwr CYD Cymru yn esbonio bod nifer o ffactorau wedi cyfrannu at hyn gan gynnwys bod y gyfradd tâl aelodaeth wedi gostwng (ar lefel y Deyrnas Unedig i gyd) o ganlyniad i'r dirwasgiad ac adborth gan aelodau bod y gyfradd yn rhy uchel. Dywedir bod y gostyngiad hefyd yn rhannol oherwydd “*gwyliau tâl*” y cytunwyd arnynt gan CYD i rai aelodau oedd yn ei chael yn anodd talu eu taliadau aelodaeth, y gellid ei weld ynddo ei hun yn ddangosydd fyddai'n peri pryder o freuder masnachol rhai aelodau gan fod cyfraddau tâl aelodaeth CYD yn rhesymol⁶³.

3.5.2 Social Firms Wales

Mae'r tabl isod (Ffigwr 11 isod) yn cynnig proffil incwm cryno ar gyfer Social Firms Wales am y cyfnod cyllid craidd presennol. Yn yr un modd â CYD Cymru, mae'n dangos bod y rhan fwyaf o incwm Social Firms Wales yn cael ei greu o'r trefniant cyllid craidd. Am y ddwy flynedd gyntaf o'r trefniant presennol, mae'r elfen cyllid craidd wedi cyfateb i 64% o gyfanswm yr incwm ar gyfer 2008/09 a 81% ar gyfer 2009/10. Ar sail yr incwm a ragwelir ar gyfer 2010/11, disgwylir i'r elfen cyllid craidd gyfrif am lefel debyg (81%) o gyfanswm yr incwm.

Ffigwr 11: Proffil Incwm Cryno ar gyfer Social Firms Wales.

	2008 - 09	2009 - 10	2010 – 11	CYF.
Cyfanswm Incwm	124,773	126,251	131,161*	382,185
Cyllid Craidd Llywodraeth y Cynulliad	79,913	102,771	105,763	288,447
Cyllid Craidd fel % o'r Incwm Cyffredinol	64%	81%	81%	
Incwm Arall	44,860	23,480	25,398	93,738

*Sylwer: Mae ffigwr cyfanswm incwm 2010-11 yn seiliedig ar y swm a ragwelir gan SFW yn Nhachwedd 2010.

Daeth yr incwm ychwanegol a grëwyd gan Social Firms Wales am y ddwy flynedd ariannol gyntaf o'r cyfnod cyllid craidd presennol (£97,708 yn 2008-09 a £59,127 yn 2009-10) oddi wrth:

⁶² Ffynhonnell: ar sail ein hadolygiad o adroddiadau cynnydd chwarterol am y cyfnod.

⁶³ Deallwn o drafodaethau gyda DTA UK bod cyfraddau'r ffioedd yn amrywio o £100 i £500 gan ddibynnu ar natur a maint y corff sy'n aelod.

Waith ymgynghori (gwasanaethau yr anfonebir amdanynt gan weithwyr SFW). Roedd hyn yn cyfateb i £44,630 neu 36% o'r incwm yn 2008/09, £22,536 neu 18% o'r incwm yn 2009/10 a rhagwelir £25,000 neu 19% o incwm a ragwelir yn 2010/11;

Symiau bychan iawn o incwm amrywiol. Roedd hyn yn cyfrif am £230 yn 2008/09, £944 yn 2009/10 a rhagwelir £400 yn 2010/11.

Ar sail y dybiaeth na fyddai wedi bod yn bosibl sicrhau'r ffynonellau incwm ychwanegol a ddangosir uchod heb gyllid craidd, mae'n bosib casglu, am bob £1 o gyllid craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru, fe lwyddodd Social Firms Wales i greu 56c yn ychwanegol yn 2008/09 a 23c ychwanegol o incwm yn 2009/10. Ar sail y rhagolygon ar gyfer 2010/11, mae'n debygol y bydd Social Firms Wales wedi creu 24c yn ychwanegol am bob £1 o gyllid craidd.

Yn yr un modd â CYD Cymru, mae Social Firms Wales hefyd yn ddibynol iawn ar gyllid craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru, a hebdo ni fyddai'r sefydliad mewn sefyllfa i barhau i weithredu mae'n debyg. Wedi dweud hynny, mae Social Firms Wales wedi dangos y gallu i greu incwm o waith am ffi a wneir ar sail ymgynghoriaeth. Fodd bynnag, mae braidd yn siomedig bod y gyfran o waith sy'n cynhyrchu ffioedd wedi lleihau ym mlynnyddoedd dau a thri o'r cyfnod cyllid craidd. Fe ddigwyddodd hyn i raddau helaeth oherwydd bod y Brif Weithredwraig wedi rhoi cyfran helaeth iawn o'i hamser a'i gallu i gyflawni'r amcanion yn y cytundeb cyllid craidd a rheoli'r sefydliad sydd yn ei dro wedi lleihau'r amser sydd ar gael i "werthu" ar sail ymgynghorol.

Mae mater capasiti eisoes wedi cael ei ddynodi o fewn Social Firms Wales ac yn ystod 2010 yn dilyn trafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, cyflwynodd Social Firms Wales gynnis am gyllid (yn cyfateb i £139,707) i benodi Cydlynnydd arall, yn canolbwyntio ar ddatblygu cwmnïau cymdeithasol ym Mhowys a Chastell-nedd Port Talbot. Mae'r cynnis yn cael ei ystyried ar hyn o bryd a bydd yn cael ei drafod yng ngoleuni canfyddiadau'r adolygiad hwn.

3.5.3 Canolfan Cydweithredol Cymru

Mae'r tabl isod (Ffigur 12 isod) yn rhoi proffil incwm wedi ei grynhoi ar gyfer Canolfan Cydweithredol Cymru ar gyfer y cyfnod cyllid craidd presennol. Mae'r Ganolfan yn cynhyrchu ei chyfrifon ar gyfer cyfnodau calendr yn hytrach na chyfnodau ariannol. Ni fu'n ymarferol na phosibl yng nghwmpas yr adolygiad hwn i gynhyrchu ffigyrau incwm blwyddyn ariannol (h.y. 1 Ebrill i 31 Mawrth) ar gyfer y Ganolfan er mwyn gwneud dadansoddiad uniongyrchol a chyflawn o'r cyllid craidd fel cyfran o'r incwm cyffredinol. Mae'r cyfrifiadau a'r amcangyfrifon a ddangosir yn Ffigur 12 isod a'r paragraffau cyn hynny felly yn seiliedig ar ddadansoddiad sy'n rhoi syniad o'r sefyllfa dros dri chyfnod o 12 mis.

Ar sail y ffigyrau mynegol hyn, mae'n amlwg bod Canolfan Cydweithredol Cymru yn gorff llawer mwy na'r ddau arall sy'n destun i'r adolygiad hwn. Mae'r gyfran o gyllid craidd fel cyfran o'r incwm cyffredinol hefyd yn llawer llai ar 3%, 4% a 3% a amcangyfrifwyd ar gyfer y tair blynedd sy'n cael eu cynnwys yn y trefniant cyllid craidd hwn.

Ffigur 12: Proffil Incwm Cryno Canolfan Cydweithredol Cymru.

	2008	2009	2010	CYF
Cyfanswm Incwm ⁶⁴	6,456,211	4,432,326	5,335,638*	16,224,175
Elfen Cyllid Craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru ⁶⁵	165,000	170,000	175,000	510,000
Cyllid Craidd fel % o'r Incwm Cyffredinol	3%	4%	3%	
Incwm Arall	6,291,211	4,262,326	5,160,638	14,390,000

*Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli rhagolwg o ddiwedd blwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2010.

Daeth yr incwm ychwanegol a grëwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru ar gyfer y cyfnod cyllid craidd presennol (£6,291,211 yn 2008, £4,262,326 yn 2009 a £5,160,638 a amcangyfrifwyd yn 2010) oddi wrth:

⁶⁴ Ar sail y Ffigyrau Blwyddyn Calendr (h.y. 12 is 1 Ionawr i 31 Rhagfyr)

⁶⁵ Ar sail Ffigyrau Blwyddyn Ariannol (h.y. 12 mis 1 Ebrill i 31 Mawrth)

Gweithgarwch cyflawni prosiect ar raddfa fawr yn ymwneud â Chefnogi Busnes Mentrau Cymdeithasol. Gwnaeth y Ganolfan gais llwyddiannus am gyllid ERDF gan WEFO ar gyfer y gweithgaredd hwn (dan raglenni Amcan 1 a 2 i gychwyn yn 2000-2006 ac yna Rhaglen Cydgyfeiriant 2007-13). Mae'r Cyllid ERDF yn cael arian cyfatebol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru;

Cyflawni prosiect mawr yn ymwneud â chynhwysiant digidol.

Dyfarnwyd contract i'r Ganolfan i gyflawni'r fenter cynhwysiant digidol Cymunedau@Ei Gilydd fel yr oedd ac mae wedi llwyddo i gael contract i gyflwyno olynedd y prosiect Communities 2.0 dros Lywodraeth Cynulliad Cymru;

Gwaith prosiect a wnaed i awdurdodau lleol unigol;

Roedd gwaith ar brosiectau yn creu cyfanswm o £6.2m neu 94% o incwm y Ganolfan yn 2008, ychydig dros £4m⁶⁶ neu 90% o incwm y ganolfan yn 2009 a bydd yn cyfrif am ffigwr a ragwelir o £5m neu 95% o incwm yn 2010;

Roedd incwm heblaw incwm prosiectau (y mae cyllid craidd Llywodraeth y Cynulliad yn rhan ohono) yn cyfrif am £369,068 neu 6% o'r incwm yn 2008, £423,538 neu 10% yn 2009 a ffigwr a ragwelir o £257,516 neu 5% o'r incwm yn 2010.

Er bod rhaid pwysleisio eto bod y dadansoddiad yn Ffigwr 12 uchod yn cymysgu symiau cyllid craidd blwyddyn ariannol â'r gweddill o'r cyfrifon sy'n gweithio ar sail blwyddyn galendr, mae'n bosibl amcangyfrif (ar y sail bod y cyllid craidd yn allweddol i alluogi'r Ganolfan i sicrhau'r contractau eraill ar sail prosiectau⁶⁷), am bob £1 o arian craidd y mae'r ganolfan yn eu derbyn, fe wnaeth greu £38.13 yn ychwanegol yn 2008, £25.07 yn ychwanegol yn 2009 ac, ar sail y rhagolygon ariannol presennol mae'n debygol o greu £29.49 yn ychwanegol yn 2010.

⁶⁶ As sail crynhoi incwm o Brosiectau'r Ganolfan, Prosiectau Eithriadol a Cymunedau@Ei Gilydd.

⁶⁷ Gwneir y dybiaeth hon ar y sail bod y Prif Weithredwr sy'n gadael ac aelodau allweddol o Uwch Dîm Rheoli Canolfan Cydweithredol Cymru wedi paratoi ceisiadau am y prif gontractau darparu prosiectau y mae'r Ganolfan wedi bod yn llwyddiannus i'w cael. Byddai eu hamser wrth wneud y gwaith datblygu ceisiadau wedi cael ei godio i a'i dalu gan elfen cyllid craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Er gwaethaf y diffygion o ran dull oherwydd y cyfnodau ariannol a ddefnyddir, mae'r dadansoddiad hwn yn dangos nad yw Canolfan Cydweithredol Cymru yn ddibynnol ar gyllid craidd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i oroesi a'i bod yn eithriadol o effeithlon wrth greu ffurfiau eraill o incwm, gan ddefnyddio'r cyllid craidd fel llwyfan. Fel y cyfryw, mae'n debygol y byddai Canolfan Cydweithredol Cymru yn goroesi a pharhau i weithredu am gyfnod cyfyngedig heb y cyllid craidd. Wrth wneud hynny, byddai'n medru tynnu ar yr arian wrth gefn cymedrol y mae wedi ei gasglu o wargedau masnachu a byddai mewn sefyllfa i barhau i dynnu incwm o gontractau darparu prosiectau mawr dros y cyfnod byr (dwy - dair blynedd).

Fodd bynnag, byddai tynnu cyllid craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ôl yn golygu bod yr amrywiaeth o weithgareddau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd dan y cytundeb presennol yn dod i ben. Pwysleisiodd uwch swyddogion yn y Ganolfan Cydweithredol hefyd, heb gyllid craidd, y byddai'r Ganolfan yn ymarferol yn "*gasgliad o brosiectau*" ac fel y cyfryw y byddai yn cael ei chyfyngu yn ddifrifol yn ei gallu i ymwneud â gweithgareddau strategol neu ddatblygu busnes sydd wedi bod yn hanfodol i'w bodolaeth a'i goroesiad. Byddai tynnu unrhyw gyllid craidd yn ôl yn cael ei deimlo ar ei waethaf gan y Ganolfan yn y cyfnod cyn i bob prosiect gychwyn a phan fydd angen mwyaf o allu datblygu busnes (sy'n cael ei gyllido trwy'r elfen cyllid craidd).

3.6 Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd wrth gyfrannu at waith ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes polisi

3.6.1 Cyfraniad at Ddatblygu Polisi a Strategaeth

O ran y cyfraniad a wnaed at ddatblygu polisi a strategaeth, roedd y rhanddeiliaid y gwnaethom ni siarad â nhw yn fwyaf ymwybodol o waith Canolfan Cydweithredol Cymru yn y cyswllt hwn. Yn rhannol roedd hyn oherwydd y ffaith bod y Ganolfan wedi hen sefydlu yng Nghymru ac yn cael ei gweld yn alluog iawn o ran tynnu ar ei phrofiadau a'i gwybodaeth ei hun i roi sail i drafodaethau ehangach. Fodd bynnag yn fwy sylfaenol, roedd y rhan

fwyaf o randdeiliaid yng Nghymru y buom yn siarad â nhw hefyd yn meddwl bod Canolfan Cydweithredol Cymru wedi chwarae rôl allweddol o ran cynrychioli buddiannau'r sector economi gymdeithasol yn ehangach a'i bod yn parhau i wneud hynny (yn hytrach na dim ond hyrwyddo ei buddiannau ei hun) yng Nghymru gyfan.

“Mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn gwneud gwaith rhagorol wrth gynrychioli'r economi gymdeithasol ehangach. Maen nhw'n rhan o'r celfi”.

(Swyddog Llywodraeth Cynulliad Cymru)

Yn ymarferol, roedd nifer o randdeiliaid yn meddwl bod gwaith y Ganolfan wrth gyfrannu at ddatblygu polisi a strategaeth ehangach yn deillio o gyfraniadau'r Prif Weithredwr ac aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli. Yn arbennig, roedd yr unigolion sy'n ymwneud â Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan a Grŵp Ymgynghorol Gweinidogol Mentrau Cymdeithasol yn meddwl bod cyfraniad y Ganolfan trwy aelodaeth y Prif Weithredwr sy'n gadael yn adeiladol a gwerthfawr.

Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gweithio'n gyson â Chanolfan Cydweithredol Cymru, yn ogystal â chynrychioli'r sector ar gyrrff ffurfiol a pharatoi tystiolaeth ysgrifenedig, eu bod yn galw ar y Ganolfan yn gyson am gyngor a gwybodaeth ad hoc, er enghraifft wrth baratoi ymatebion Gweinidogol i gwestiynau gan Aelodau'r Cynulliad. Yn y cyswllt hwn, dywedodd nifer o swyddogion wrthym fod y Ganolfan bob amser yn barod i helpu a hynny ar fyr budd yn aml.

“Maent yn barod iawn i ymateb pan fydd yn dod i gwestiynau o'r Cynulliad ac ymholiadau gan Weinidogion. Mae'r berthynas yn gweithio yn dda iawn.

Rydym bob amser yn cael yr hyn y mae arnom ei angen”. (Swyddog Llywodraeth Cynulliad Cymru)

“Maent yn sêr. Maen nhw wirioneddol yn mynd y filltir arall”. (Swyddog Llywodraeth Cynulliad Cymru)

Roedd un rhanddeiliad yn arbennig yn meddwl bod y cyllid craidd yn chwarae rôl allweddol trwy alluogi'r Ganolfan i ymwneud â gwaith datblygu polisi ehangach.

“Fe allech chi ddweud yn ystod y cyfnod yn arwain at ddiwedd Amcan 1, roedd y Ganolfan mewn sefyllfa anodd gan ei bod yn gorfod rheoli cyfnod o newid. Ar yr adeg honno, nid oedd ganddynt unrhyw gyllid craidd ac roedd y Prif Weithredwr yn gorfod rhoi ei amser i reoli'r trosglwyddiad ac roedd yn lleihau ei allu i gyfrannu at ddatblygiadau polisi a strategaeth pwysig oedd yn digwydd ar y pryd”. (Swyddog Llywodraeth Cynulliad Cymru)

Dywedodd y rhanddeiliaid hwn bod yr angen i Ganolfan Cydweithredol Cymru chwarae rhan weithredol wrth gyfrannu at waith polisi a strategaeth ehangach, yn ogystal â darparu gwasanaethau ar sail prosiect yn cynnig sail resymegol glir ar gyfer rhoi cyllid craidd iddi.

“Mae cyllid craidd yn hanfodol iddyn nhw [Y Ganolfan Cydweithredol] i fod yn fwy na dim ond corff i ddarparu prosiectau”. (Cyswllt Allanol⁶⁸)

Roedd ymwybyddiaeth o waith Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru a Social Firms Wales yn cyfrannu at ddatblygiadau polisi a strategaeth ehangach yn sylweddol is ymhlith ein cysylltiadau yn Llywodraeth Cynulliad Cymru a rhai allanol.

Cyfeiriodd ychydig o swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru at y rôl yr oedd Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru wedi ei chwarae wrth ddatblygu meddwl ehangach am yr agenda trosglwyddo asedau cymunedol yng Nghymru, yn arbennig fel ymateb i Adolygiad Quirk⁶⁹ oedd yn archwilio rheolaeth a pherchenogaeth gymunedol ar asedau.

⁶⁸ Mae'r term cyswllt allanol yn cyfeirio at randdeiliaid sydd yng Nghymru ond nad ydynt yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru.

⁶⁹ Making Assets Work: The Quirk Review (arweiniwyd gan Barry Quirk). Cyhoeddwyd Mai 2007. See: <http://www.communities.gov.uk/publications/communities/makingassetswork>

Roedd un uwch swyddog yn Llywodraeth Cynulliad Cymru Official yn cofio “*eu bod [CYD Cymru] wedi gwneud cyfraniad pwysig o gwmpas Quirk. Roeddem yn dibynnu ar eu cyngor*”.

Mae'n amlwg hefyd bod CYD Cymru yn weithredol wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth o drosglwyddo asedau a'r meddwl amdano a rôl ymddiriedolaethau datblygu yng Nghymru yn yr economi gymdeithasol ehangach.

Mae Cyfeirlyfr Aelodau CYD Cymru⁷⁰ sy'n rhoi golwg ar lawer o ymddiriedolaethau datblygu Cymru, nodyn briffio ar y cyd, a baratowyd mewn partneriaeth gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru⁷¹ a thystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan CYD Cymru i Ymchwiliad Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i rôl mentrau cymdeithasol yn Economi Cymru⁷² yn enghreifftiau o waith CYD Cymru wrth roi gwybodaeth ar gyfer gwaith ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y maes polisi hwn. Fodd bynnag, nid oedd ymwybyddiaeth o'r dogfennau hyn ymhlith swyddogion allweddol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill yn arbennig o gryf.

Ar drywydd tebyg, er bod y rhanddeiliaid y buom yn siarad â nhw yn ymwybodol o fodolaeth Social Firms Wales, roedd ei broffil o ran cyfrannu at yr agenda polisi a strategaeth ehangach yn eithaf bychan. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod Social Firms Wales yn sefydliad mwy newydd yng Nghymru (o'i gymharu â Chanolfan Cydweithredol Cymru dyweder) ac mae hefyd yn llawer llai. Roedd yn ymddangos hefyd bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r cysyniad cwmnïau cymdeithasol yn llai manwl ymhlith rhanddeiliaid, er bod nifer yn gwybod bod Social Firms Wales yn darparu cefnogaeth ddatblygu “ymarferol” i gwmnïau cymdeithasol unigol ar draws Cymru.

⁷⁰ Gweler: http://www.dtawales.org.uk/creo_files/products/dta_directory_for_pdf_layout_1.pdf

⁷¹ Asedau i Gymunedau Mentrus yng Nghymru. Gweler:

http://www.dtawales.org.uk/creo_files/products/dtaw_asset_briefing_2009.pdf

⁷² Gweler: <http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=189647&ds=7/2010>

Er bod Social Firms Wales yn weithredol wrth gyfrannu at drafodaethau polisi⁷³, yn ymarferol, mae llawer o adnoddau Social Firms Wales yn cael eu sianelu tuag at ddarparu gwasanaeth a chefnogaeth i ddatblygu cwmnïau cymdeithasol, ac mae hyn i ryw raddau yn hollol gyferbyniol i rôl Social Firms UK lle mae mwy o bwyslais ar eiriolaeth a gwaith datblygu polisi.

Cyfeiriodd dau randdeiliad at aelodau CYD Cymru a Social Firms Wales (er eu bod yn eithaf bychan o ran niferoedd gwirioneddol) fel cryfder wrth ychwanegu pwysau a hygrededd i'w gwaith eiriolaeth.

“Mae SFW a CYD yn gyrrff gwirioneddol gynrychioliadol, nid oes ganddynt fawr o rym ond maent yn gynrychioliadol o’u rhan hwy o’r sector mentrau cymdeithasol yn syml oherwydd bod ganddynt aelodau”. (Cyswllt Allanol)

Un maes allweddol y gellid gwella ynddo a ddynodwyd gan un o randdeiliaid Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd y cyfle i gryfhau cysylltiadau (yn arbennig o ran helpu i siapia polisi a datblygu rhaglenni) rhwng y tri chorff ac adrannau eraill, yn arbennig felly'r Adran Economi a Thrafnidiaeth. Teimlai'r cyswllt hwn yn arbennig y gallai'r Adran Economi a Thrafnidiaeth wneud mwy i fanteisio ar wybodaeth ac arbenigedd y tri chorff trwy wneud yn siŵr bod gwasanaethau cefnogi a ariennir trwy'r Adran Economi a Thrafnidiaeth a'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ac wedi eu hanelu at fentrau cymdeithasol wedi eu halinio i'r graddau mwyaf posibl. Mae canfyddiadau'r adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Bwyllgor Menter a Dysgu'r Cynulliad Cenedlaethol ar Rôl Mentrau Cymdeithasol yn Economi Cymru hefyd yn awgrymu'r angen i fentrau cymdeithasol gael lle mwy amlwg yng ngwaith yr Adran Economi a Thrafnidiaeth⁷⁴.

Maes arall lle'r oedd nifer fechan o randdeiliaid yn meddwl y gallai fod cyfleoedd i wneud y mwyaf o fewnbwn polisi a strategaeth CYD Cymru a

⁷³ Gweler er enghraifft y dystiolaeth a gyflwynwyd i Ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Dysgu: <http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=189658&ds=7/2010>

⁷⁴ Argymhelliad 4 o adroddiad y Pwyllgor. Tudalen 15.

Social Firms Wales oedd yng nghyswllt eu cyswllt gyda'u 'chwaer' gyrff yn y Deyrnas Unedig. Roedd un rhanddeiliad yn arbennig yn meddwl y gallai CYD Cymru a Social Firms Wales wneud mwy i dynnu ar gryfder cael cysylltiadau gyda chyrrff trwy'r Deyrnas Unedig, yn arbennig yng nghyd-destun polisi sydd heb ei ddatganoli a dehongli oblygiadau a chyfleoedd (er enghraifft y Gymdeithas Fawr a'r Papur Gwyn ar Ddiwygio Lles) yng nghyd-destun Cymru. Roedd yr unigolyn hwn yn meddwl hefyd y gellid gwneud mwy efallai i hidlo meysydd o arfer gorau trwodd o lefel y Deyrnas Unedig i drafodaethau polisi a strategaeth sy'n digwydd. Gallai gwell cyswllt â DTA UK a Social Firms UK olygu nodiadau briffio achlysurol yn cael eu paratoi i roi'r newyddion diweddaraf i randdeiliaid yng Nghymru ar bolisi a datblygiadau strategaeth ar lefel y Deyrnas Unedig yn ogystal â syniadau newydd neu enghreifftiau o arfer da a allai fod o ddiddordeb i Gymru. Roedd rhanddeiliaid o Lywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn meddwl y gallai cydweithwyr o DTA a Social Firms UK fynd i gyfarfodydd adolygu achlysurol (un y flwyddyn o leiaf) a gynhelir rhwng CYD Cymru a Social Firms Wales a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Er bod yr adolygiad polisi a gynhaliwyd ar ddechrau'r adroddiad hwn yn dynodi bod y cyd-destun strategol yng Nghymru yn gefnogol iawn i'r sector economi cymdeithasol, nododd nifer o randdeiliaid mai un o'r prif sialensiau yn awr ac yn y dyfodol fydd archwilio ffyrdd y gall mentrau cymdeithasol gynorthwyo i gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus mewn hinsawdd o doriadau sylweddol i gyllidebau. Yn ymarferol mae nifer o'r mentrau cymdeithasol sydd eisoes yn cael eu cefnogi gan y tri chorff eisoes yn ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus (naill ai trwy drefniadau tendr cystadleuol neu allanoli). Roedd y rhanddeiliaid yn meddwl bod rhaid i'r maes hwn o waith a allai fod yn ddadleuol fod yn bwyslais allweddol i'r tri chorff o ran eu mewnbwn i'r ffordd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn meddwl yn ogystal â chynlluniau cyrff sector cyhoeddus eraill, fel awdurdodau lleol wrth symud ymlaen.

"Mae'r cyd-destun presennol o doriadau yn golygu mai un o'r materion allweddol wrth symud ymlaen yw'r posibilrwydd o allanoli darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae cwmpas a maint y lleihad yn y sector

cyhoeddus yn fater allweddol. Os na ellir rheoli'r lleihad hwnnw heb droi at beidio â darparu gwasanaethau, yna bydd arnom angen mewnbwn cryf i archwilio llwybr cwmnïau cydfuddiannol". (Cyswllt Allanol)

Fodd bynnag fe seiniodd rhanddeiliad arall nodyn o rybudd na ddylid gweld mentrau cymdeithasol fel yr unig ateb i'r toriadau mewn gwariant cyhoeddus.

"Y pryder sydd gennyf fi yw bod mentrau cymdeithasol yn dechrau cael eu gweld mewn rhai meysydd fel y panacea. Dwi'n cael y teimlad ei fod i rai yn ateb i bob problem. Dyw hynny, yn syml, ddim yn wir. Fe all helpu ac fe all gynnig llawer dan yr amgylchiadau cywir a gyda'r fenter gymdeithasol gywir. Ond nid yw'n banacea". (Cyswllt Allanol)

3.6.2 Cyswllt gyda'r Gynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru newydd

Nododd nifer o swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru a chysylltiadau eraill bwysigrwydd y berthynas sy'n datblygu rhwng y tri chorff a Chynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru.

Roedd y rhan fwyaf o'r cysylltiadau yn glir nad oes gan y Gynghrair unrhyw gyfrifoldebau o ran darparu gwasanaeth, er bod un rhanddeiliad yn meddwl y dylai gynorthwyo'r mentrau cymdeithasol sy'n aelodau trwy eu cyfeirio yn ddiduedd at y ffurf fwyaf addas o gefnogaeth sydd ar gael.

"Dwi'n meddwl y gall mentrau cymdeithasol gael eu drysu gan y 'tirlun' cefnogaeth. Mae'n ddarlun dryslyd. Rôl y Gynghrair yw taflu ychydig o oleuni yma trwy fod yn un man cyswllt". (Cyswllt Allanol)

Yn fwy sylfaenol, roedd y rhanddeiliaid yn meddwl mai prif rôl y Gynghrair yw bod yn "*llais*" i'r economi gymdeithasol wrth ddatblygu polisi a strategaeth ac fel y cyfryw y byddai'n rhaid iddi ddatblygu perthynas gref gyda'r tri chorff sy'n cael eu hadolygu yma yn ogystal â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chynghorau Gwirfoddol Sirol.

"Prif rôl y Gynghrair yw dwyn yr un man cyswllt yna. Fe fydd raid iddyn nhw weithio o fewn y rhwydwaith cefnogaeth sy'n bodoli mewn ffordd, sy'n golygu

ymwneud â'r tri chorff ac eraill fel CGGC, Cyngorau Gwirfoddol Sirol, awdurdodau lleol ac yn y blaen". (Cyswllt Allanol)

Un her allweddol felly fydd sianelu arbenigedd y tri chorff trwy'r Gynghrai at y Llywodraeth.

*"Mae arnom angen i'r tri chorff yma i fwydo i mewn i'r Gynghrai newydd".
(Swyddog Llywodraeth Cynulliad Cymru)*

Yn achos CYD Cymru a Social Firms Wales, roedd nifer fach o'r rhanddeiliaid yn meddwl y dylai'r trefniant hwn ychwanegu gwerth o ystyried y pwyslais ar ddarparu gwasanaeth a roddir gan lawer o'i waith sy'n derbyn cyllid craidd a'r cyfyngu dilynol ar eu gallu i ymwneud â gwaith ar bolisi a strategaeth. Ond i Ganolfan Cydweithredol Cymru, roedd un neu ddau o randdeiliaid yn meddwl y gallai hyn fod yn fwy o her, gan ei bod wedi bod yn llais y sector mentrau cymdeithasol mewn gwirionedd ers rhai blynyddoedd ac y byddai'n rhaid iddynt gymryd "cam yn ôl" i ganiatáu i'r Gynghrai gymryd y fantell hon.

Yn ymarferol, mae'r cysylltiadau cynnar rhwng Canolfan Cydweithredol Cymru a'r Gynghrai yn ymddangos yn adeiladol ac roedd rhai rhanddeiliaid yn meddwl bod y newid ym Mhrif Weithredwr y Ganolfan yn gyfle da i ystyried sut mae'r sector mentrau cymdeithasol yn cael ei gynrychioli ar gyffwrdd allweddol fel Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector.

"Dwi'n meddwl ei bod hi'n gwneud synnwyr yn awr i'r Gynghrai gymryd y sedd [oedd yn cael ei dal cyn hyn gan Brif Weithredwr Canolfan Cydweithredol Cymru] ar Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector". (Swyddog Llywodraeth Cynulliad Cymru).

Wedi dweud hynny, roedd bron bob un o'r rhanddeiliaid y buom yn siarad â hwy yn meddwl na ddylai Canolfan Cydweithredol Cymru gamu yn ôl mewn unrhyw fodd o'i rôl o ran cyfrannu at ddatblygu polisi a strategaeth yng Nghymru. Roedd y cysylltiadau yma'r un mor bendant nad oedd bodolaeth y Gynghrai yn awtomatig yn golygu y dylid lleihau cyllid craidd i Ganolfan

Cydweithredol Cymru, gan y byddai'n ofynnol iddynt ddal ati i fwydo eu harbenigedd a'u profiad i'r Gynghrair, ond y byddent hefyd angen cynnal perthynas uniongyrchol â Gweinidogion a swyddogion allweddol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

3.6.3 Cymariaethau gyda sefydliadau eraill tebyg yng Nghymru

Fe wnaethom ystyried dau sefydliad sy'n gweithio yng Nghymru sy'n derbyn cyllid craidd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn medru cymharu â'r tri chorff sy'n destun yr adolygiad hwn. Y ddau gorff a ddewiswyd oedd Chwarae Teg a Menter a Busnes.

Mae **Chwarae Teg** yn hyrwyddo datblygiad economaidd menywod yng Nghymru. Mae'n hyrwyddo addysg, entrepreneuriaeth, cydbwysedd bywyd a gwaith a gweithio hyblyg ac yn helpu menywod i oresgyn y rhwystrau sy'n eu hatal rhag gwneud cyfraniad llawn a chyson yn yr economi⁷⁵.

Mae Chwarae Teg yn derbyn cyllid craidd o £400k y flwyddyn gan yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a £10k y flwyddyn gan yr Adran Economi a Thrafnidiaeth. Mae Chwarae Teg yn sefydliad addas i'w gymharu oherwydd ei fod yn cyfrannu at ddatblygu polisi a strategaeth y Cynulliad ac yn darparu amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu cyllido fel prosiectau. Yn yr un modd â Chanolfan Cydweithredol Cymru, nid yw Chwarae Teg yn defnyddio ei gyllid craidd i ddarparu gwasanaethau – ond yn hytrach i gyfrannu at yr agendau polisi, ar gyfer dibenion strategol a datblygu busnes.

Mae cytundebau cyllid craidd Chwarae Teg, sydd wedi bod mewn grym ers tair blynedd, yn dod i ben ym Mawrth 2011. Bu Chwarae Teg trwy adolygiad mewnol⁷⁶ yng nghyswllt ei gyllid craidd a ddaeth i'r casgliad "*mae cyllid craidd*

⁷⁵ Ffynhonnell: <http://www.chwaraeteg.com/about-us/>

⁷⁶ Ffynhonnell: <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/research-and-evaluation/evaluation/chwaraeteg/?skip=1&lang=en> Cynhaliwyd yr adolygiad yn fewnol, gan Swyddog o Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Chwarae Teg yn cynrychioli buddsoddiad gwerth chweil iawn i Lywodraeth Cynulliad Cymru". Daeth yr adolygiad i'r canlyniad hwn ar y sail bod:

"Chwarae Teg yn gwneud cyfraniadau pwysig ar draws ystod o bynciau i helpu i gyflawni nifer o'r canlyniadau sy'n cael blaenoriaeth gan Lywodraeth y Cynulliad, yn arbennig yng nghyswllt yr economi, cyflogaeth, menter a sgiliau;

Nid yw'n ymddangos bod unrhyw gorff neu gyrff eraill a fedrai wneud y rhan fwyaf o'r hyn y mae'n ei wneud ar draws Cymru gyfan;

Mae anghyfartaledd sylweddol rhwng y ddau ryw yn parhau yn economi Cymru, ac maent yn debygol o fod felly am flynyddoedd lawer;

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r hyn y mae Chwarae Teg yn ei wneud, nid yw'n ymddangos yn awr, nag yn y dyfodol y gallwn ei ragweld, ffynonellau cyllido eraill o unrhyw arwyddocâd – heb gyllid craidd byddai Chwarae Teg bron yn sicr yn crebachu yn gymharol gyflym;

Dangosodd Chwarae Teg ei fod yn medru bodloni gofynion WEFO ac eraill i gael cymeradwyaeth ar gyfer nifer o brosiectau a ariennir gan yr UE o feintiau amrywiol. Mae bron yn sicr, petai Chwarae Teg ddim yn bodoli 3 blynedd yn ôl i wneud cais, datblygu a lansio'r prosiect Cenedl Hyblyg, na fyddai prosiect o'r fath yn bodoli;

Mae Chwarae Teg yn cael ei ystyried yn gorff rhagorol gan lawer yng Nghymru, ac yn sefydliad y gall Cymru fod yn falch ohono ar lefel ryngwladol".

Aeth yr adolygiad ymlaen i argymhell bod *"Chwarae Teg yn fuddsoddiad gwerth chweil ac os yn bosibl o gwbl, y dylai barhau i dderbyn cyllid craidd ar neu yn agos at y lefel bresennol"* a *"ni ddylai'r Cytundeb Cyllid Craidd nesaf fod am 3 blynedd, ond am gyfnod hwy o 4 blynedd o leiaf, neu hyd yn oed gytundeb parhaus 5 mlynedd"*.

Dywedodd rhanddeiliad allweddol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthym eu bod wedi ystyried Cytundeb Lefel Gwasanaeth fel dewis gwahanol i gyllid

craidd ar gyfer Chwarae Teg. Ond, roedd hyn yn cael ei ystyried yn ddewis llai ffafriol ar y sail bod cytundeb cyllid craidd yn cynnig mwy o hyblygrwydd i Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chwarae Teg a'i fod yn fwy addas ar gyfer rheoli'r gweithgareddau polisi a strategaeth sy'n cael eu gwneud fel rhan o'r cyllid craidd.

Cwmni datblygu economaidd yw **Menter a Busnes** a sefydlwyd yn 1989, yn wreiddiol i gefnogi a hyrwyddo rôl siaradwyr Cymraeg yn yr economi. Mae'n awr yn darparu ystod eang o wasanaethau datblygu economaidd a chefnogi busnes gan gynnwys:

Dylunio ei raglenni cefnogi ei hun i fusnesau, entrepreneuriaeth, datblygu sgiliau a blaengaredd;

Cyflwyno rhaglenni cefnogi busnes ar ran sefydliadau cenedlaethol a rhanbarthol eraill;

Cynnig gwasanaethau masnachol i fusnesau;

Cynnig gwasanaethau ymgynghori masnachol ar gyfer datblygu economaidd a'r sectorau cysylltiedig⁷⁷.

Ers ei sefydlu yn 1989 mae Menter a Busnes wedi derbyn cyllid craidd gan Fwrdd Datblygu Cymru Wledig, Awdurdod Datblygu Cymru ac yn fwy diweddar gan yr Adran Economi a Thrafnidiaeth yn Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn ystod blwyddyn ariannol 2007/08, derbyniodd Menter a Busnes gyllid craidd o £250,000. Mewn modd tebyg i Chwarae Teg a Chanolfan Cydweithredol Cymru, mae Menter a Busnes yn draddodiadol wedi defnyddio ei gyllid craidd i gyfrannu at faterion polisi a strategaeth (yn achos Menter a Busnes, ar faterion economi iaith) ac fel sail ar gyfer datblygu ei weithgaredd ehangach, gan gynnwys sicrhau prosiectau a ariennir gan Ewrop a chontractau cyflwyno, yn bennaf gan Awdurdod Datblygu Cymru fel yr oedd a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

⁷⁷ Ffynhonnell: www.menterabusnes.com

Yn 2006, cychwynnodd yr Adran Economi a Thrafnidiaeth adolygiad mewnol o'r trefniant cyllid craidd gyda Menter a Busnes. Er nad yw'r adolygiad hwn wedi cael ei gyhoeddi yn yr un ffordd ag adolygiad Chwarae Teg, deallwn o drafodaethau gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a Menter a Busnes bod yr adolygiad wedi dod i'r casgliad y dylai'r cyllid craidd gael ei ddirwyn i ben dros gyfnod.

Deallwn fod y casgliad hwn wedi ei seilio ar y farn nad yw'r prif faes polisi y mae Menter a Busnes wedi bod yn cyfrannu ato trwy ei gyllid craidd (h.y. y maes economi iaith) yn faes polisi sy'n cael ei olrhain yn weithredol gan Weinidogion. Fel y cyfryw, credlid nad oedd unrhyw angen bellach na sail resymegol glir ar gyfer eiriolaeth arbenigol neu fewnbwn ar strategeth a allai gyfiawnhau'r lefelau presennol o gyllid craidd. Yn hytrach, casglwyd y byddai'n fwy cost effeithiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru brynu mewnbnw penodol yn agored (fel ymchwil) yn ymwneud â materion economi iaith pan a phryd bynnag y bydd galw am waith o'r fath.

Esboniodd un o swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd bod Menter a Busnes wedi ehangu ei ffocws gweithredol tu hwnt i ddarparu gwasanaethau a fwriadwyd at wella cyfraniad siaradwyr Cymraeg at yr economi⁷⁸. Cadarnhaodd ein trafodaethau gyda Menter a Busnes y farn hon, gyda'r Prif Weithredwr yn amcangyfrif mai dim ond tua 15% o incwm y sefydliad sy'n ymwneud â gweithgareddau a dargedwyd yn unig ar siaradwyr Cymraeg. Daeth adolygiad 2006 i'r casgliad ei bod felly yn anodd cyfiawnhau parhau i ddarparu cyllid craidd i Fenter a Busnes fel sail i sicrhau mwy o gontractau menter a busnes mwy prif ffrwd.

O ganlyniad i adolygiad 2006, fe osododd yr Adran Economi a Thrafnidiaeth strategaeth i ddirwyn y cyllid craidd i ben. Newidiwyd y cytundeb cyllid craidd i fod yn Gytundeb Lefel Gwasanaeth gan leihau cyllid craidd Menter a Busnes yn flynyddol dros gyfnod o bedair blynedd i £65,000 yn ystod y flwyddyn

⁷⁸ Mae Menter a Busnes yn darparu contractau cefnogi menter a busnes fel agweddau ar y Rhaglen Datblygu Cyflenwyr, y cynllun addysg entrepreneuriaeth Dynamo, a Chyswllt Ffermio er enghraifft. Mae'r gwasanaethau yma ar gael i'r di-Gymraeg hefyd.

ariannol 2010/11 gan ei ddirwyn i ben yn llwyr ar ddiwedd y cyfnod ar 31 Mawrth 2011. Mae hyn wedi golygu lleihau'r cyllid craidd fel canran o'r incwm cyffredinol o'r pwynt uchaf o ryw 12%⁷⁹ i 1.5% yn y flwyddyn olaf. Mae'n ddiddorol nodi, er gwaethaf y gostyngiad llym mewn cyllid craidd, mae trosiant Menter a Busnes wedi cynyddu gan awgrymu bod y corff wedi ymateb mewn modd strategol a chadarnhaol i'r ffaith bod y cyllid craidd wedi dod i ben.

3.6.4 Cymariaethau gyda sefydliadau yn y Deyrnas Unedig

Fel rhan o'r adolygiad hwn, fe wnaethom gynnal trafodaethau gydag unigolion o:

Social Firms UK;

Social Firms Scotland;

Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu yn Lloegr;

Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu yn yr Alban;

Co-operative Development Scotland.

O ran **Social Firms UK**, mae'n ymddangos bod gan y corff hwn fwy o bwyslais ar eiriolaeth a llai ar ddarparu gwasanaeth o'i gymharu â Social Firms Wales. Mae Social Firms UK yn cael ei ariannu trwy gymysgedd o ffynonellau gan gynnwys cyllid craidd gan Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Sicrhawyd y cyllid craidd i Social Firms UK trwy broses dendro gystadleuol dan Gronfa Grymuso Llywodraeth y Deyrnas Unedig⁸⁰.

Mae Social Firms UK yn creu peth incwm trwy daliadau aelodaeth a gwaith ymgynghorol. Mae hefyd yn creu peth incwm o gontractau darparu prosiectau, er bod hyn yn cael llai o bwyslais gan Social Firms UK nag y buodd.

Mae gan **Social Firms Scotland** incwm cyffredinol o gwmpas £364,500 y flwyddyn. Mae ganddo dîm o bump o staff a 40 o aelodau sy'n gwmnïau

⁷⁹ Ar sail cyllid craidd fel cyfran o drosiant blynyddol o £2m.

⁸⁰ Gweler:

<http://www.communities.gov.uk/publications/communities/empowermentfundprospectus>

cymdeithasol. Mae'n derbyn incwm oddi wrth y Loteri, cyllid craidd o £244,500 dros dair blynedd gan Weithrediaeth yr Alban a symiau llai gan yr aelodau a gwasanaethau ymgynghorol.

Dywedodd Social Firms Scotland wrthym fod y sail resymegol dros y cyllid craidd gan Weithrediaeth yr Alban wedi ei wreiddio yn yr angen am arbenigedd niche a'r angen am gefnogaeth i gwmnïau cymdeithasol ac yn ymwneud â hwy. *“Ein maes arbenigol yw cwmnïau cymdeithasol, fyddwn ni ddim yn cael ein tynnu i mewn yn fwy eang”.*

Mae'n cynnig cymysgedd o wasanaethau cefnogi uniongyrchol a gwaith i ddylanwadu ar bolisi a strategaeth yn yr Alban, ac mae'n gweithredu fel *“llais i'r Sector, yn ymgyrchu a chodi ymwybyddiaeth o'r model busnes fel ateb i broblemau cyflogaeth”*⁸¹.

O ran y swm o gyllid craidd y mae Social Firms Scotland yn ei dderbyn ac o ran y defnydd a wna o'i gyllid craidd mae'n debyg iawn i Social Firms Wales, er bod y tîm ychydig yn fwy.

Mae **Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu y Deyrnas Unedig (DTA UK)** yn cyflogi tua 60 o staff ac yn creu cyfanswm incwm o tua £5.5m y flwyddyn. Crëir yr incwm trwy drefniadau cyllido strategol (craidd) gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Memorandwm Dealltwriaeth gyda Swyddfa'r Cabinet. Mae tua £3.9m (neu 71%) o gyfanswm yr incwm yn flynyddol yn cael ei greu o gontractau cyflwyno prosiectau ac incwm a enillir trwy waith ymgynghorol.

Defnyddir y cyllid craidd i weithredu gwasanaethau eiriolaeth, strategaeth a datblygu polisi tra bod DTA UK hefyd yn rhedeg nifer o brosiectau cefnogaeth uniongyrchol i ymddiriedolaethau datblygu, (gan gynnwys, er enghraifft y prosiect Survive and Thrive yn Ne Orllewin Lloegr a'r prosiect Cultivating

⁸¹ Ffynhonnell: <http://www.socialfirms.org.uk/whatwedo/whatwedo.asp>

Enterprise sy'n cael ei ariannu gan y Loteri Fawr oedd yn cefnogi sefydlu mentrau cymdeithasol newydd).

Yn ychwanegol, mae DTA UK yn creu incwm trwy aelodaeth (llai na 5% o'r holl incwm). Er bod hyn yn debyg iawn i CYD Cymru (sydd hefyd yn creu tua 5% o'r incwm trwy daliadau aelodaeth), mae DTA UK yn wahanol i CYD Cymru yn ymddangos fel petai'n creu cyfran sylweddol uwch o'i incwm trwy ennill contractau (darparu prosiectau) a gwaith ymgynghori. Yn arbennig mae DTA UK yn tynnu ar arbenigedd aelodau amrywiol, ymarferwyr a chysylltiadau ac yn marchnata gwasanaethau ymgynghori dan enw sy'n rhannol annibynnol y cyfeirir ato fel "*The Pool*"⁸².

Mae'n werth nodi hefyd bod DTA UK wedi cyhoeddi adroddiad yn tynnu sylw at effaith ei waith yn 2010. Mae'r adroddiad hwn (a gynhyrchwyd gan DTA ei hun) yn crynhoi gweithgareddau a chanlyniadau ar draws yr holl amrywiaeth o wasanaethau DTA UK.

Mae gan y **Gymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu yn yr Alban (DTA yr Alban)** dîm o dri o staff llawn amser ac un rhan-amser ac o ystyried yr adnoddau cyfyngedig yma, mae eu gwaith i gefnogi ymddiriedolaethau datblygu yn canolbwyntio ar gysyniad "*helpu eich hun*". Mae'r DTA yn yr Alban yn derbyn cyllid craidd a chyllid ar gyfer prosiectau ar gyfer prosiect trosglwyddo asedau cymunedol gan Lywodraeth yr Alban. Mae hyn yn cyfateb i ryw £250k⁸³ dros ddwy flynedd ac yn tua 25% o holl incwm y sefydliad. Mae DTA yr Alban yn derbyn 50% o'i gyllid trwy Raglen Cymunedau Cynhwysol a Deinamig Cronfa Loteri Fawr yr Alban⁸⁴ ac mae'r 25% arall o'i incwm yn dod o incwm a enillir (e.e. cynadleddau a gwaith ymgynghori) a thaliadau aelodaeth⁸⁵ (yr olaf yn cyfrif am ganran fechan iawn o'r incwm). Mae cyfanswm yr incwm yn cyfateb i tua £350,000 y flwyddyn.

⁸² Gweler: <http://www.thepooldta.co.uk/>

⁸³ Deallwn bod y rhan fwyaf o hwn yn gyllid craidd.

⁸⁴ Gweler:

http://www.biglotteryfund.org.uk/prog_dynamic_inclusive_communities2?regioncode=-sco

⁸⁵ Mae'r tâl aelodaeth yn cychwyn ar £75 y flwyddyn am aelodaeth lawn.

Mae'n ymddangos bod DTA yr Alban yn gweithredu mewn modd tebyg i raddau helaeth ond ar raddfa ychydig yn fwy na CYD Cymru. Fodd bynnag mae'n ymddangos bod DTA yr Alban wedi bod yn fwy llwyddiannus wrth sicrhau ystod ehangach o ffrydiau o incwm (e.e. y Llywodraeth, Loteri Fawr a gwaith ymgynghori), sy'n awgrymu bod ei gallu i greu incwm yn uwch a'i bod felly ychydig yn llai dibynnol ar ei chyllid craidd gan y Llywodraeth nag y mae CYD Cymru.

Sefydlwyd **Co-operative Development Scotland** (CDS) yn 2006 i gynyddu cyfraniad mentrau cydweithredol at economi'r Alban. Mae'n is-gwmni i Scottish Enterprise ac mae ganddo gylch gorchwyl trwy'r Alban i gyd i "*hyrwyddo a hwyluso datblygiad mentrau cydweithredol*"⁸⁶. Mae'n cyflogi'r hyn sy'n cyfateb i naw a hanner o staff sy'n gyfrifol am yr Alban i gyd ac mae'r corff yn derbyn ei holl arian, rhyw £3m dros dair blynedd hyd 2010 gan Scottish Enterprise.

Mae CDS yn cynnig cymysgedd o fewnbwn strategaeth a pholisi i Lywodraeth yr Alban ac amrywiaeth o wasanaethau cefnogi uniongyrchol i gwmnïau cydweithredol (gan gynnwys cefnogaeth i gychwyn busnes, trosglwyddo perchenogaeth a chyngor ar olyniaeth a chefnogaeth i gwmnïau cydweithredol sydd wedi sefydlu) ar draws yr Alban. Mae ei wasanaethau ar gael ar draws pob sector, ond mae CDS yn targedu ei gefnogaeth ar y sectorau bwyd a diod, twristiaeth, coedwigaeth, ynni adnewyddadwy a diwydiannau creadigol.

Yn ein trafodaethau gyda CDS, roeddent yn pwysleisio, oherwydd eu bod yn gymharol fach, nad ydynt yn mabwysiadu agwedd rhy bresgriptif at y modd y mae eu cyllid yn cael ei ddefnyddio

Er ei fod yn derbyn mwy o gyllid craidd yn sylweddol na Chanolfan Cydweithredol Cymru, dyma holl incwm CDS ac fe'i defnyddir ar gyfer datblygu strategol a darparu gwasanaethau. Yn yr ystyr hwn, byddai'n

⁸⁶ Ffynhonnell: <http://www.cdscotland.co.uk/>

ymddangos bod Cymru yn arwain y blaen o'i chymharu â'r Alban o ran aeddfedrwydd a graddfa a chwmpas Canolfan Cydweithredol Cymru. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae'n ymddangos bod CDS yn canolbwyntio mwy ar fentrau cydweithredol tra bod Canolfan Cydweithredol Cymru yn ymwneud â rhoi cefnogaeth ar draws ystod ehangach o sefydliadau (gan gynnwys mentrau cydweithredol) sy'n llunio'r sector mentrau cymdeithasol yng Nghymru.

3.7 Arfer Da

Yn yr adran hon, rydym yn dadansoddi adborth gan fentrau cymdeithasol a gefnogwyd a ddarparwyd trwy ein harolwg ffôn ar y gefnogaeth y maent wedi ei derbyn gan y tri chorff. Yna rydym yn tanlinellu enghreifftiau penodol o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn arfer da, a wnaed gan bob un o'r tri chorff gyda chyllid craidd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

3.7.1 Adborth ar gefnogaeth

Roedd mwyafrif llethol y 47 o fentrau cymdeithasol a ymatebodd i'n harolwg (85% neu 40 sefydliad) naill ai yn fodlon neu yn fodlon iawn ar y gefnogaeth yr oeddent wedi ei derbyn. Dim ond tri a ddywedodd nad oeddynt yn fodlon nac yn anfodlon⁸⁷. Roedd yr ymatebwyr oedd wedi derbyn cefnogaeth gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a SFW yn fwy tebygol o nodi eu bod yn 'fodlon iawn' ar yr help a gawsant.

Pan ofynnwyd iddynt gytuno neu anghytuno â datganiadau penodol am y gefnogaeth a gawsant, fe nododd yr ymatebwyr:

Bod y gefnogaeth (ar draws y tri chorff) yn fwyaf defnyddiol wrth ateb ymholiad penodol (gyda 33 neu 70% o'r rhai a holwyd yn cytuno bod hyn yn wir);

Bod cefnogaeth hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer cynllunio busnes (a ddywedwyd gan 28 neu 60%), cychwyn y fenter gymdeithasol (nodwyd gan 27 neu 57%) a gwella'r ffordd y mae'r fenter yn cael ei rheoli

⁸⁷ Ni wnaeth pedwar ymateb i'r cwestiwn am fodlonrwydd.

(nodwyd gan 26 neu 55%). Roedd cleientiaid a gefnogwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a SFW yn fwy tebygol o nodi bod y gefnogaeth wedi bod yn ddefnyddiol iddynt wrth gychwyn eu menter ac ar gyfer dibenion cynllunio busnes;

Dywedodd cyfran ychydig yn llai bod y gefnogaeth wedi bod yn werthfawr wrth eu helpu i ddatblygu asedau i ddatblygu incwm (22 achos neu 47%) ac wrth ganfod neu gael mynediad at hyfforddiant i'w staff (18 achos neu 38%). Nid oedd yn syndod gweld bod cleientiaid CYD Cymru yn fwy tebygol o gytuno nag eraill bod y gefnogaeth wedi bod yn werthfawr i'w helpu i ddatblygu asedau sy'n cynhyrchu incwm (12 o 21 neu 57%);

Mae'n ymddangos bod y gefnogaeth a dderbyniwyd wedi bod yn llai defnyddiol wrth helpu i gynyddu gwerthiant neu drosiant neu wrth wella marchnata (y ddau yn cael eu nodi gan 16 ymatebwr neu 34%) yn ogystal â dynodi neu gael mynediad at gyllid (a nodwyd gan ddim ond 13 ymatebwr neu 28%). Yn wir, roedd cryn nifer o'r rhai a holwyd (11 achos neu 23% o'r rhai a holwyd) yn dweud nad oedd y gefnogaeth a dderbyniwyd wedi helpu i wella eu marchnata, er eu bod wedi derbyn cefnogaeth yn y maes hwnnw. Roedd y cleientiaid a gefnogwyd gan CYD Cymru yn fwy tebygol na'r lleill o ddweud nad oedd y gefnogaeth wedi eu helpu i wella eu gweithgareddau marchnata neu gynyddu eu gwerthiant neu drosiant.

Ni allai tua dwy ran o dair o'r rhai a gefnogwyd feddwl am ffyrdd y gellid gwella'r gefnogaeth a gawsant. Cynigiwyd rhai awgrymiadau o ran gwelliannau gan draean o'r ymatebwyr a holwyd. Roedd y sylwadau yn cynnwys:

Awgrymodd llond llaw y gallai'r gefnogaeth fod wedi bod ar gael dros gyfnod hwy o amser ac y dylai fod ar gael yn barhaus;

Roedd gan ddau bryder am allu eu darparwr (CYD Cymru yn y ddau achos) i fodloni gofynion mentrau cymdeithasol: *"fe allen nhw wneud â rhagor o staff i ateb ymholiadau"* a *"mae ar CYD Cymru angen rhagor*


o staff i roi cefnogaeth benodol. 'Dyn nhw ddim ar gael bob amser ac maen nhw'n ymddangos fel pe bai ganddynt ormod o waith'.

Roedd swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn meddwl y dylai CYD Cymru, fel rhan o'i arolwg blynyddol o Ymddiriedolaethau Datblygu (sy'n rhan o'r cytundeb cyllid craidd ond sy'n cael ei gynnal gan DTA UK heb gyfraniad ariannol gan CYD Cymru) ofyn cwestiynau penodol i'w haelodau i gasglu adborth ar safon, perthnasedd a phriodoldeb ei gwasanaethau, yn arbennig y rhai a roddir trwy'r cytundeb cyllid craidd.

Roedd y mentrau a holwyd yn fwyaf tebygol o fod wedi troi at eu darparwr cefnogaeth oherwydd eu bod yn amgyffred bod y gefnogaeth y byddent yn ei derbyn wedi ei theilwrio i'w anghenion penodol (nodwyd gan 31 ymatebwr neu 66%). Dilynwyd hyn gan wybodaeth a pharodrwydd y staff i helpu (a nodwyd gan 21 ymatebwr neu 45%) a ddim yn ymwybodol o unrhyw un arall a allai fod wedi rhoi'r gefnogaeth angenrheidiol iddynt (13 ymatebwr neu 28%).

Nododd nifer o'r ymatebwyr ffactorau eraill oedd yn cynnwys y gwerth a roddir i adolygiad cymheiriaid i gymheiriaid, manteision cyfleoedd rhwydweithio a'r ymddiriedaeth oedd ganddynt yn y darparwr dan sylw. Roedd cleientiaid CYD Cymru a SFW yn fwy tebygol o nodi bod y gefnogaeth a dderbyniwyd wedi ei theilwrio i fusnesau yn eu sector (ar 86% a 83% yn eu tro) tra bod cleientiaid Canolfan Cydweithredol Cymru yn fwy tebygol o ddewis ffactorau yn ymwneud â phrofiad ac arbenigedd y staff cefnogi (ar 50%).

Ffigwr 13: Rhesymau dros ddewis Darparwr Cefnogaeth



Yn gyffredinol, mae hyn yn awgrymu bod mentrau cymdeithasol yn troi at y cyrff yma oherwydd eu bod yn ychwanegu gwerth trwy gefnogaeth ac arbenigedd wedi eu teilwrio ac yn benodol i'r cleient. Mae'n awgrymu hefyd, tra bod lleiafrif yn teimlo bod ffynonellau cefnogaeth eraill ar gael yn y sector preifat, nad ydi'r rhain yn ymarferol yn ddewisiadau realistig.

Roedd y canfyddiadau yma yn cael eu hadleisio i raddau helaeth gan y mentrau cymdeithasol y gwnaethom gynnal ymweliadau dilynol â nhw. Roedd yn amlwg bod y dull o ddarparu gwasanaethau yn amlwg iawn, gyda Social Firms Wales a CYD Cymru yn cynnig cefnogaeth barhaus ar ystod eang iawn o faterion (am nifer o flynyddoedd weithiau) tra bod Canolfan Cydweithredol Cymru (yn cael ei llywio yn bennaf gan derfynau ei ffrydiau cyllido ar sail prosiectau) yn cynnig ffurfiau wedi eu targedu ac yn fwy penodol o gyngor a chefnogaeth gyda "therfyn uchaf" o ran y swm o gefnogaeth oedd ar gael.

3.7.2 Enghreifftiau o arfer da a wnaed trwy gyllid craidd

Un nodwedd a ddaeth yn amlwg trwy ein hymweliadau dilynol â mentrau cymdeithasol oedd bod y mentrau a gefnogwyd gan CYD Cymru a Social Firms Wales yn gwerthfawrogi'r dull mentora sy'n cael ei ddefnyddio ganddynt. I ddwy o'r mentrau o leiaf roedd hyn yn golygu eu bod yn medru galw ar gefnogaeth dros gyfnod maith o amser (nifer o flynyddoedd mewn un

achos) a thynnu ar arbenigedd (o grwpiau cymheiriaid yn achos CYD Cymru) i'w helpu gyda materion penodol ar gyfnodau gwahanol yn eu datblygiad. Mae'n ymddangos yn amlwg bod yr hyblygrwydd y mae'r cytundebau cyllid craidd sydd mewn grym yn caniatáu i'r dull mwy anffurfiol hwn o ddarparu gwasanaeth ddigwydd, ond mewn cyferbyniad, mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn gweithio mewn strwythur darparu mwy ffurfiol ac wedi ei dargedu, sy'n cael ei yrru yn rhannol gan y ffaith bod ei wasanaethau cefnogi uniongyrchol yn cael cyllid prosiect ac fel y cyfryw yn destun i dargedau'r UE.

“Mae fel perthynas gyda nhw. Mae fel cael mentor i helpu gyda gweithgareddau datblygu busnes”. (Cleient i CYD Cymru)

Er bod y dull mwy hyblyg o ddarparu gwasanaeth yn cael ei werthfawrogi gan gleientiaid Social Firms Wales a CYD Cymru, mae'n rhaid i hyn, wrth gwrs, gael ei reoli'n ofalus fel na fydd mentrau yn mynd yn rhy ddibynnol ar gefnogaeth ac na fydd y sefydliadau sy'n cefnogi yn cael eu tynnu i mewn yn rhy ddwfn i sefydliadau unigol.

Mae'r cysyniad o allanoli sy'n cael ei hyrwyddo gan Social Firms Wales yn berthnasol iawn yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Roedd un o'r mentrau cymdeithasol y buom yn ymweld â nhw yn priodoli ei bodolaeth yn llwyr i Social Firms Wales a'r cysyniad o allanoli gwasanaeth awdurdod lleol trwy fenter gymdeithasol a grëwyd o'r newydd. Roedd hyn wedi bod yn ateb delfrydol (nad oedd neb wedi meddwl amdano o'r blaen) i'r awdurdod lleol dan sylw. O ystyried y pwysau presennol a pharhaus ar wariant sector cyhoeddus, mae'n debygol y bydd y model hwn yn dod yn ddewis cynyddol hyfyw a deniadol i gyrff sector cyhoeddus a bydd yr arbenigedd a fagwyd gan Social Firms Wales yn werthfawr iawn wrth rannu arfer da yn y cyswllt hwn.

O ran mewnbwn strategol, mae gwaith Canolfan Cydweithredol Cymru (cyfraniad y Prif Weithredwr sy'n gadael yn arbennig) wrth gynorthwyo Llywodraeth Cynulliad Cymru â gwaith datblygu polisi wedi bod ac yn parhau i gael ei werthfawrogi yn fawr. Mae ei gallu i gynrychioli'r sector mentrau cymdeithasol ehangach ar gyrff allweddol (fel Cyngor Partneriaeth y Trydydd

Sector a fforymau eraill) wrth dynnu ar brofiad o ddarparu yn uniongyrchol a gweithredu'r wybodaeth hon mewn cyd-destunau datblygu polisi a strategol yn enghraifft o arfer rhagorol.

Mae'n annhebygol y bydd y cyfuniad hwn a'r dyfnder o arbenigedd ymarferol a dealltwriaeth polisi o ran economi gymdeithasol Cymru yn bodoli yn unrhyw le arall yng Nghymru. Fel y cyfryw, bydd yn her allweddol i'r Ganolfan fwydo ei harbenigedd a'i gwybodaeth i'r Gynghrair newydd a chadw llinell uniongyrchol at Weinidogion a swyddogion allweddol (ar draws ystod ehangach o adrannau) yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

4.0 Casgliadau ac Argymhellion

4.1 Sail Resymegol

Mae'r cyd-destun polisi yng Nghymru, ac yn arbennig y Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol yn cynnig sail resymegol glir i Lywodraeth Cynulliad Cymru barhau i gefnogi'r sector mentrau cymdeithasol yng Nghymru. Mae peth rhesymeg hefyd tu ôl i sicrhau bod sefydliadau niche penodol yn yr economi gymdeithasol yn cael darpariaeth o ran cefnogaeth wedi ei thargedu a gwasanaethau eiriolaeth, a all beidio â bod ar gael yn weithredol neu beidio â chael ei ddefnyddio heb ymyrraeth y llywodraeth.

Mae'n glir hefyd bod mentrau cymdeithasol, beth bynnag fo eu math neu eu cyfansoddiad cyfreithiol yn debygol o ddod yn bwysicach dros y misoedd a blynyddoedd nesaf wrth i sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru ddod i delerau â'r sialensiau o ddarparu gwasanaethau mewn amgylchedd o doriadau mewn cyllideb.

4.2 Social Firms Wales

Niche cymharol fychan sydd i gwmnïau cymdeithasol yn economi gymdeithasol Cymru ond mae'r niche hwnnw yn datblygu. Mae'r model allanoli sy'n cael ei hyrwyddo a'i ddilyn gan Social Firms Wales yn rhesymegol ac yn berthnasol iawn yng nghyd-destun cyfyngiadau ar wariant cyhoeddus (a'r pwysau mae hyn yn ei ddwyn ar ddarparu gwasanaeth). Mae'r un mor berthnasol o ran ymdrin â rhai o'r sialensiau cyflogi anodd sy'n wynebu Cymru (yn arbennig o ran ennyn ymlyniad y rhai sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur) a blaenoriaethau a amlinellir yng nghynigion Llywodraeth y Deyrnas Unedig o ran y diwygiadau O Fudd-dal i Waith. Dylai cynyddu ymwybyddiaeth o'r model allanoli ymhlith sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru (gan gynnwys ei gryfderau a'i gyfyngiadau) fod yn un o amcanion allweddol Social Firms Wales a Chynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru.

Nid yw hwn yn faes gwaith y gall Social Firms Wales na Llywodraeth Cynulliad Cymru ddisgwyl gweld enillion cyflym ynddo, ond mae gwaith Social

Firms Wales yn helpu i ehangu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o sut y gall y sector hwn gyfrannu at economi gymdeithasol ehangach Cymru.

Yn gyffredinol mae Social Firms Wales wedi perfformio yn dda o'u cymharu â'r dangosyddion gweithgaredd a pherfformiad a amlinellir yn ei gytundeb cyllid craidd. Mae'n ganmoladwy hefyd mai Social Firms Wales yw'r unig un o'r tri sefydliad sy'n destun yr arolwg hwn sydd wedi ceisio cysylltu ei weithgareddau craidd sy'n cael eu cyllido â chanlyniadau.

O'i gymharu â sefydliadau eraill ac yn arbennig Social Firms Scotland, mae cwmpas a graddfa'r ariannu craidd a ddarperir i Social Firms Wales gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn rhesymol ac addas. Fodd bynnag, mae'n bwysig i Social Firms Wales ddyblu ei ymdrechion i greu incwm ymgynghori ychwanegol er mwyn bod yn unol â'i gymheiriaid trwy weddill y Deyrnas Unedig ac er mwyn cyflawni portffolio referniw mwy cytbwys. Byddai hyn yn helpu i gryfhau hygredded y sefydliad yng Nghymru.

Mae'n amlwg hefyd bod Social Firms yn Lloegr yn chwarae rhan fwy strategol, eiriolaeth o ran bod yn sail i ddatblygiadau polisi a strategaeth. I Social Firms Wales, rhaid i'r ffocws yn y cyswllt hwn fod ar wneud y mwyaf o'r Gynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru newydd fel bod llais y sector yn cael ei glywed yn glir, heb orfod tynnu adnoddau oddi ar ddarparu gwasanaethau.

Nid yw'n hawdd mesur effaith economaidd cyffredinol gwaith Social Firms Wales ar yr economi gymdeithasol ehangach yng Nghymru. Yn ymarferol mae'n debygol bod hyn wedi bod yn gadarnhaol, ond o ystyried graddfa gymharol fechan y gweithgaredd, cymedrol o ran yr economi gymdeithasol yng Nghymru gyfan. Wedi dweud hynny, mae'n amlwg bod y gwaith a wneir gan Social Firms Wales yn cynnig y potensial ar gyfer model datblygu yng nghyswllt cyflwyno gwasanaeth sector cyhoeddus sydd hefyd yn dwyn effeithiau cadarnhaol yn gymdeithasol a chymunedol. Mae ei bwylais ar sianelu cefnogaeth i helpu i gychwyn mentrau newydd hefyd yn gweddu i amcanion Rhaglen Adnewyddu'r Economi.

Ein casgliad cyffredinol o ran Social Firms Wales yw ei fod yn cynnig gwerth cymharol dda am arian i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Er y gallai'r sefydliad barhau i fodoli gyda gostyngiad yn ei gyllid craidd, ond gyda llai o weithgaredd a chanlyniadau yn sgil hynny, byddai tynnu'r arian yn ôl yn llawn yn debygol iawn o weld Social Firms Wales yn cael ei ddirwyn i ben. Nid ydym yn gweld bod unrhyw resymeg mewn gweld Llywodraeth Cynulliad Cymru yn tynnu'r arian craidd yn ôl oddi ar Social Firms Wales ar ddiwedd Mawrth 2011.

Argymhelliad 1

Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru barhau i roi arian craidd i Social Firms Wales. Dylai canolbwynt ei weithgaredd o ran yr arian craidd fod ar hyrwyddo a datblygu'r model allanoli yn rhagweithiol a chefnogi creu cwmnïau cymdeithasol newydd. Fel rhan o unrhyw gytundeb arian craidd newydd, mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ymgorffori amcan i Social Firms Wales gynyddu ei ymdrechion i greu incwm oddi wrth waith ymgynghori i a) fod yn fwy unol â'i gymheiriaid mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig a b) sefydlu portffolio refeniw mwy cytbwys iddo ei hun.

4.3 Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu

Er bod cyfanswm y nifer o ymddiriedolaethau datblygu yng Nghymru yn parhau yn gymharol isel, maent yn cynrychioli rhan strategol bwysig o'r economi gymdeithasol yng Nghymru. Mae pwysigrwydd prosiectau trosglwyddo asedau yn debygol o dyfu wrth i gyrff cyhoeddus gael eu gorfodi i ystyried ffyrdd gwahanol o gyflawni gwasanaethau a rheoli asedau. Mae ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu ac archwilio prosiectau trosglwyddo asedau yn glir trwy sefydlu'r Gronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol. Mae'n glir hefyd ar lefel y Deyrnas Unedig, mae Rhaglen Cymdeithas Fawr y Llywodraeth yn hyrwyddo trosglwyddo asedau trwy ei gynllun hawl i brynu arfaethedig.

Gwerth ychwanegol Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru wrth ddatblygu'r rhan hon o'r economi gymdeithasol yw trwy hwyluso a galluogi

mynediad at arbenigedd trwy rwydweithio a chyswllt rhwng ymarferwyr o'r un meddylfryd.

Mae tystiolaeth i awgrymu bod y gefnogaeth a roddir gan Gymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru yn gwneud gwahaniaeth i broffesiynoldeb ac agwedd fasnachol ymddiriedolaethau datblygu. Ond, nid yw'r cysylltiadau rhwng y gweithgareddau craidd a ariennir a'r canlyniadau ac allbwn mesuradwy yn arbennig o glir na chryf. Mae perfformiad y Gymdeithas Ymddiriedolaethau hefyd yng nghyswllt ei gyllid craidd yn anodd ei farnu, er ei bod yn ymddangos bod rhai dangosyddion perfformiad allweddol (er enghraifft yng nghyswllt aelodaeth a gwiriadau iechyd) yn annhebygol o gael eu cyrraedd.

Nid yw priodoli allbwn a chanlyniadau i weithgaredd yn cael ei wneud yn haws gan y ffaith bod gormod o weithgareddau a dangosyddion perfformiad allweddol nad ydynt yn ddigon CAMPUS yng nghytundeb cyllido craidd y Gymdeithas. O ganlyniad, nid yw'r gweithgaredd cronol a'r effaith a grëir gan y cyllid craidd yn glir. Rhaid i hyn gael ei symleiddio a'i wneud yn fwy tryloyw fel bod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ddealltwriaeth gliriach yn union beth y mae'n ei gael am ei arian gan y Gymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu yng Nghymru.

Mae pwyslais parhaus y Gymdeithas ar y niche ymddiriedolaeth ddatblygu yn gryfder allweddol ac mae ei arbenigedd ac arbenigedd yr aelodau y mae'n gallu galw arnynt yn sicr yn cael ei werthfawrogi gan ei aelodau. Fodd bynnag, mae lle i'r Gymdeithas yng Nghymru fod yn fwy uchelgeisiol gan gadw ei gynnyg unigryw o ran ei werthu ei hun. Mewn cymhariaeth a'i gymheiriaid yn Lloegr a'r Alban, mae'r Gymdeithas yng Nghymru yn tangyflawni o ran ysgogi incwm ychwanegol o weithgareddau ar brosiectau, aelodaeth ac ymgynghori sy'n cyd-fynd â'r gweithgareddau craidd (yn hytrach na bod yn berygl o grwydro oddi wrthynt).

Mae proffil y Gymdeithas yng Nghymru o ran bwydo i mewn i bolisi a strategaeth hefyd yn faes lle gellid gwella. Rhaid i Lywodraeth Cynulliad

Cymru ddiffinio yn gliriach y meysydd polisi a strategaeth y mae'n debygol o fod angen mewnbwn gan y Gymdeithas yng Nghymru yn y dyfodol. Bydd raid i hyn roi ystyriaeth i rôl Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru ac yn arbennig y drafodaeth bolisi sy'n parhau a gweithgareddau yn ymwneud â throsglwyddo asedau cymunedol. Rhaid ystyried hefyd faint o werth y gellir ei ychwanegu at waith cysylltiedig â pholisi'r Gymdeithas yng Nghymru trwy dynnu yn fwy effeithiol ar arbenigedd ei chwaer sefydliadau yn Lloegr a'r Alban.

Mae'n galonogol bod y Gymdeithas wedi canfod aelodau newydd yng Nghymru dros gyfnod y cyllid craidd. Fodd bynnag, fe welwyd gostyngiad pryderus mewn refeniw o daliadau aelodaeth yn 2009-10 er gwaethaf y cynnydd ymddangosiadol yn y nifer o aelodau yn gyffredinol. Yn ymarferol, mae parodrwydd aelodau i dalu ffioedd yn brawf allweddol o'r gwerth y maent yn ei roi ar y gwasanaethau y maent yn eu cael yn ôl. Er bod rhaid ystyried effeithiau llif arian y dirywiad economaidd, wrth gwrs, yng nghyswllt gallu sefydliadau i dalu eu taliadau aelodaeth, mae cost fechan y ffioedd eu hunain yng nghyswllt maint yr ymddiriedolaethau datblygu (nifer ohonynt a throsiant o fwy na £1m y flwyddyn) yng Nghymru yn golygu bod hwn yn faes a all beri pryder.

Mae lle i'r Gymdeithas yng Nghymru hefyd roi gwell diffiniad o'r gwasanaethau y mae'n eu darparu trwy ganolbwyntio ei hymdrechion a'i hadnoddau yn fwy ar ymddiriedolaethau datblygu newydd neu rai sy'n datblygu. Er ei bod yn bwysig bod gan y Gymdeithas ddigon o hyblygrwydd yn y trefniant ariannu craidd i fod yn flaengar ac ymateb gydag atebion penodol i anghenion penodol o ran cefnogaeth, mae'n ddadleuol a ddylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ariannu cefnogaeth barhaus (sy'n cynnwys nifer o flynyddoedd mewn rhai achosion) i fentrau sydd wedi hen sefydlu a allai o bosibl dalu am y math hwn o gyngor a chymorth. Mae Rhaglen Adnewyddu'r Economi yn sicr yn awgrymu y dylai pwyslais cefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru trwy nawdd i fentrau fod ar greu mentrau newydd, mawr eu potensial yn hytrach na rhoi cefnogaeth gyffredinol barhaus i fentrau sydd wedi eu sefydlu. Yn y cyswllt hwn, rhaid i'r Gymdeithas yng Nghymru fod yn

gliriach o ran pryd a ble y mae'n addas defnyddio cefnogaeth arian craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru a phryd y dylai fod yn codi am gefnogaeth ar sail ymgynghoriaeth.

Er nad oes unrhyw amheuaeth bod arian craidd wedi cael ei ddefnyddio gan y Gymdeithas ar gyfer gweithgareddau addas, mae lle i wella effeithlonrwydd a gwerth am arian ei gwaith yng Nghymru. Dylid gwneud hyn trwy symleiddio'r nodau a'r dangosyddion perfformiad allweddol yn unrhyw gytundeb ariannu craidd yn y dyfodol. Dylai hefyd olygu bod y Gymdeithas yn defnyddio dull mwy strategol, uchelgeisiol ac wedi ei dargedu yn ei gwaith yng Nghymru.

Nid ydym yn meddwl y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru dynnu'r arian craidd yn ôl oddi ar y Gymdeithas yng Nghymru ym Mawrth 2011. Fodd bynnag, rydym yn amlinellu yn Argymhelliad 2 (isod) gyfres o gamau a fwriadwyd i wneud ei pherthynas â'r Gymdeithas yng Nghymru yn fwy strategol a gyda golwg ar well gwerth am arian.

Argymhelliad 2

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i ddarparu cyllid craidd i Gymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw gytundeb ariannu craidd gael ei adolygu yn sylweddol a'i wella trwy ganolbwyntio ar lai o nodau a dangosyddion, nodau a dangosyddion cliriach a mwy strategol sydd yn cael eu cysylltu â chanlyniadau. Rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru hefyd roi arweiniad cliriach i'r Gymdeithas yng Nghymru o ran pryd a sut i ddefnyddio cefnogaeth wedi ei ariannu o'r arian craidd a phryd y mae'n addas i'r Gymdeithas godi tâl ar ei haelodau am y gefnogaeth y mae'n ei chynnig. Rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru hefyd nodi'r math o fewnbwn strategaeth a pholisi y mae'n debygol o fod ei angen gan y Gymdeithas dros y 12 mis nesaf a theilwrio graddfa'r cytundeb cyllid craidd o gwmpas hyn. Rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru hefyd gynnwys dangosydd perfformiad allweddol CAMPUS yn unrhyw gytundeb ariannu craidd yn ymwneud â chynnydd mewn incwm ymgynghori, prosiectau ac aelodaeth i'r Gymdeithas yng Nghymru i'w

dwyn yn nes at ei chymheiriaid mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig a chymdeithasau eraill sy'n derbyn arian craidd yng Nghymru.

4.4 Canolfan Cydweithredol Cymru

Mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn sefydliad arweiniol sy'n gosod Cymru ar y blaen o ran menter gymdeithasol a datblygiadau cydweithredol yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r Ganolfan yn defnyddio ei harian craidd mewn ffordd wahanol i'r ddau sefydliad arall sy'n destun i'r adolygiad hwn. Mae hefyd yn llai dibynnol ar arian craidd i oroesi yn y cyfnod byr. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyfystyr â dweud bod arian craidd yn cyflawni swyddogaeth lai pwysig neu strategol ar gyfer Canolfan Cydweithredol Cymru.

Mae'r arian craidd yn rhoi cyfle i'r Ganolfan dynnu ar ei phrofiad eang ar sail darparu gwasanaeth a'i weithredu mewn cyd-destun polisi a strategaeth. Yn yr ystyr hwn, mae'r Ganolfan wedi defnyddio ei harian craidd yn effeithlon, gan ychwanegu gwerth strategol sylweddol i Lywodraeth Cynulliad Cymru a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys llywodraeth leol a'r trydydd sector yn ehangach yng Nghymru. Mae'r arian craidd hefyd yn galluogi Canolfan Cydweithredol Cymru i ddefnyddio ffynonellau ariannol eraill ac i gystadlu am gontractau a phrosiectau sy'n unol â'i gweledigaeth ai gwerthoedd. Mae'r swyddogaethau olaf hon yn hanfodol bwysig i ddatblygiad y Ganolfan at y dyfodol, yn arbennig yn ystod cyfnodau o drosglwyddo'r cyllido.

Y perygl i Ganolfan Cydweithredol Cymru yw y bydd yn llithro oddi wrth ei chryfder unigryw ac yn ei thaenu ei hun yn rhy denau dros amrywiaeth o feysydd polisi a darparu gwasanaeth. Fodd bynnag, mae arweiniad cryf hyd yn hyn wedi lliniaru hyn ac mae strategaeth resymegol glir yn ei lle sy'n cysylltu amrywiol linyddau gweithgaredd y Ganolfan. Mae'r Ganolfan hefyd yn uchel ei pharch ymhlith y rhanddeiliaid allweddol.

Un o'r sialensiau allweddol wrth symud ymlaen ac yn arbennig ar gyfer y Prif Weithredwr newydd fydd adeiladu ar y llwyfan hon. Bydd raid i hyn gynnwys

cymryd rôl ragweithiol a strategol wrth gynorthwyo sefydliadau sector cyhoeddus i benderfynu sut y gallant ddefnyddio modelau busnes cydweithredol a chydfuddiannol orau i gyflawni gwasanaethau cyhoeddus o safon uchel mewn amgylchedd o doriadau. Rhaid i hyn fod yn nodwedd allweddol yn unrhyw drefniant ariannu craidd newydd, fydd yn cynnwys mewnbwn o ran polisi a strategaeth, gweithgareddau codi ymwybyddiaeth a'r potensial i hyn gael ei ddilyn gan gefnogaeth uniongyrchol yn cael ei ddarparu trwy rai o brosiectau allweddol y Ganolfan.

Er y gallai Canolfan Cydweithredol Cymru yn ddamcaniaethol oroesi petai'r arian craidd yn cael ei dynnu yn ôl yn y tymor byr, byddai penderfyniad o'r fath yn creu risg o ansefydlogi yn ddifrifol. Gallai hyn, yn ei dro greu perygl o danseilio elfennau allweddol o Gynllun Gweithredu Menter Gymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i pholisi Cynhwysiant Digidol. Mae'n debyg y gallai Canolfan Cydweithredol Cymru wrthsefyll gostyngiad cyfyngedig yn ei chyllid craidd a pharhau i weithredu ar lefel derbyniol yn y cyfnod byr, er y byddai'n rhaid i unrhyw ostyngiad wrth gwrs gael ei drafod gyda'r Ganolfan ac fe fyddai'n arwain at lai o allu i roi mewnbwn i bolisïau a strategaethau.

Rydym yn casglu bod Canolfan Cydweithredol Cymru yn cynnig gwerth da am arian i Lywodraeth Cynulliad Cymru am ei harian craidd ac yn cymharu yn ffafriol â sefydliadau eraill tebyg o faint tebyg a chwmpas tebyg yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Dylai unrhyw gytundeb cyllido craidd yn y dyfodol, fodd bynnag, gysylltu nodau â dangosyddion perfformiad allweddol yn fwy clir â dulliau o fesur canlyniadau.

Argymhelliad 3

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i ddarparu cyllid craidd i Ganolfan Cydweithredol Cymru. Rhaid i unrhyw gytundeb cyllid craidd newydd roi pwyslais clir ar rôl y Ganolfan yn hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o botensial modelau busnes cydweithredol ac fel dulliau gwahanol posibl o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Dylai unrhyw gytundeb cyllid craidd newydd hefyd geisio cysylltu nodau a dangosyddion perfformiad allweddol â chanlyniadau.

4.5 Amserlenni a Chaffael

Wrth argymhell parhau i roi cyllid craidd i bob un o'r tri sefydliad sy'n destun yr adolygiad hwn, y mae rhesymeg, o ystyried yr amodau macro-economaidd ac etholiad a refferendwm y Cynulliad Cenedlaethol sydd ar fin cyrraedd ar ddatganoli rhagor o bwerau yn 2011, y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddyfarnu cytundebau interim o 12 mis hyd Fawrth 2012.

Rydym wedi argymhell nifer o newidiadau allweddol y dylid eu hymgorffori yn y cytundebau cyllido craidd newydd i bob sefydliad a dylid adolygu perfformiad o'i gymharu â'r rhain gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y cyfnod cyn Mawrth 2012.

Wrth benderfynu sut y mae'n dymuno symud ymlaen ar ôl Mawrth 2012, ac ar sail y dybiaeth bod y cyd-destun polisi yn parhau'n gefnogol a bod digon o arian ar gael, gall Llywodraeth Cynulliad Cymru ddymuno cynnal proses dendro gystadleuol i ddewis sefydliadau partner strategol o ran yr economi gymdeithasol yng Nghymru. Byddai manteision dull o'r fath yn cynnwys cynnydd ymddangosiadol mewn tryloywder a medru nodi modelau, dulliau a darparwyr posibl gwahanol, wedi eu lliflinio.

Fodd bynnag, mae anfanteision posibl hefyd mewn caffael sy'n cynnwys y potensial i ansefydlogi'r rhai sy'n derbyn arian craidd ar hyn o bryd. Yng nghyd-destun gwasanaethau polisi, strategaeth ac eiriolaeth fe all hefyd fod yn fwy heriol nodi a chaffael gwasanaethau o'r math hwn. Er na ddylai hyn fod yn broblem ar gyfer darparu elfennau o'r gwasanaethau sy'n haws eu mesur, efallai nad yw'n ddymunol datgysylltu'r ddau beth.

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru drafod a chytuno ar drefniadau cyllido craidd 12 mis gyda Social Firms Wales, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru a Chanolfan Cydweithredol Cymru yn unol ag Argymhellion 1 i 3 uchod. Ar ôl y cyfnod hwn, petai'r

rhesymeg polisi a'r amodau cyllideb yn ffafrio parhau'r gefnogaeth, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried y dewis o gynnal ymarfer caffael. Wrth wneud hynny, dylai swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgynghori â'u cydweithwyr yn adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ystyried manteision ac anfanteision defnyddio caffael i benodi cyrff partner strategol cyn symud ymlaen â'r dull hwn.

Atodiad 1

Cysylltiadau a Gyfwelwyd

Enw	Sefydliad
San Leonard	Social Firms Wales
Martin Price	Social Firms Wales
Peter Williams	CYD Cymru
Elwyn James	CYD Cymru
Simon Harris	Canolfan Cydweithredol Cymru
David Jenkins	Canolfan Cydweithredol Cymru
Sally Reynolds	Social Firms UK
Steve Wyler	DTA UK
Pauline Graham	Social Firms Scotland
Ian Cooke	DTA Scotland
Sarah Dees	Co-operative Development Scotland
Gill Clark	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Graham Benfield	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Martin Mansfield	TUC Cymru
Alex Bird	Co-operatives and Mutuals
John Bennett	Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru
Sioned Rees	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Karyn Pittick	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Chris Gittins	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Neil Robins	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Lynne Schofield	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Iain Willox	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Caroline Turner	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Alun Burge	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Katherine Jenkins	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Kerry Charles	Swyddfa Cyllido Ewropeaidd Cymru
Alun Jones	Menter a Busnes
Katy Chamberlin	Chwarae Teg

Atodiad 2

Mentrau Cymunedol yr Ymwelwyd â Hwyr

Cyswilt/Menter Gymdeithasol	Cefnogir gan
Andrew Freeguard Grow Enterprise	Canolfan Cydweithredol Cymru
Sarah Wilkins DLT Training Pen-y-bont ar Ogwr	Canolfan Cydweithredol Cymru
Nicola Field Lifesavers Credit Union Pen-y-bont ar Ogwr	Canolfan Cydweithredol Cymru
Michael Davies Dyslexia Cymru	Canolfan Cydweithredol Cymru
Sean Glanville Switch UK	Canolfan Cydweithredol Cymru
Christine Esposito New Sandfields Association	Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu
John McKernan Promo Cymru	Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu
Richard Morgan Valleys Kids	Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu
John Davies Ymddiriedolaeth Ddatblygu Glynebwy a'r Ardal	Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu
Hazel Jukes a Brian Popsys Beacons Creative Wales Cyf.	Social Firms Wales
Kate Wood Your Pets Warehouse	Social Firms Wales
Stephen Ray Prawf Gogledd Cymru	Social Firms Wales